Miss C. Davies
Spring Gardens
Newtown

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1878. [RHIF 63.

CYNNWSYIAD.

	TUD.
Arweiniad i'r Testament Newydd (Parhad)	49
Emynau Cynauaf	57
Hawl Barn Bersonol	57
Y modd y gwneir Athrod	59
Y Gweledig a'r Anweledig	60
Anerchiad i Blant yr Ysgol Sul	62
Rhai ffeithiau yn nghylch John Wesley	65
Y Ferch	66
Manion	67
Hanes	68
Congl yr Holiedydd	68
Marwgofion	68
Barddoniaeth	71

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1878. [RHIF. 63.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ARWEINIAD I'R TESTAMENT NEWYDD:

GAN Y PARCH. H. S. SOLLY, M.A., PADIHAM.

(Parhad o Rifyn 62.)

DOSRAN IV.

AROSODD Paul am ragor nâ dwy flynedd yn Ephesus, lle yr agorwyd "drws mawr" iddo, ac ychydig cyn iddo adael ar amser y Sulgwyn yn y flwyddyn 58 ysgrifenodd yr

EPISTOL CYNTAF AT Y CORINTHIAID.

Mae yr epistol hwn o bwysigrwydd neillduol i ni er ein cynnorthwyo i ddeall gwir fywyd yr eglwysi boreuol. Y peth cyntaf ydym yn sylwi arno yw y mesur ag oedd sectyddiaeth yn barod yn bodoli. Er fod yr Eglwys yn Corinth newydd ei ffurfio, yr oedd yn barod yn cynnwys pedair o bleidiau, y rhai a ymddangosent ar amserau fel yn cymmeryd rhan mewn ymrysonau anweddaidd â'u gilydd. Paul oedd yn wreiddiol wedi sefydlu y gymdeithas, ac yr oedd yno rai na oddefent i gael eu galw ar enw neb ond ei eiddo ef. Wedi'n, yr oedd Iuddew dysgedig a hyawdl o Alexandria, Apolos, yr hwn yn bossibl, yw awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, wedi dyfod i Corinth, ac wedi gwneyd llawer i adeiladu yr Eglwys (Actau xviii. 24, xix. 1), ac yr oedd rhai aelodau yn dewis ei addysg ef o flaen un arall, ac yn galw eu hunain ar ei enw. Y ny trydydd lle, yr oedd plaid Cephas, neu Simon Petr, fel y gelwir ef yn gyffredin. 'Does gyda ni un rheswm i gredu fod Petr wedi ymweled â Corinth yn bersonol, a gallwn fod braidd yn sicr mai y blaid Iuddewig Gristionogol oedd y rhai hyn, yn dal y golygiadau a ddesgrifiwyd yn y wers ddiweddaf, ac yn priodoli awdurdod gyflawn fel apostolion yn unig i Petr a'r gweddill o'r deuddeg. Yn ddiweddaf mae y blaid o "eiddo Crist," ac mae'n anhawdd iawn i ddweyd yn gymhwys pwy allai y rhai

hyn fod. Mae'n amlwg eu bod wedi ffurfio yn blaid, ac feallai eu bod wedi adnabod yr Iesu yn bersonol yn ystod ei fywyd, ac yn dueddol o herwydd hyn i ddirmygu pob awdurdod arall. Yn awr sylwch mor ddoeth ac mor ryddfrydig mae Paul yn ymwneyd â'r mater hwn. Dengys y fath bethau truenus yw'r ymraniadau yma, ac nad yw efe ddim yn atebol am eu hachosion; nid oedd wedi bedyddio mwy nag un neu ddau o deuluoedd, rhag i bobl feddwl ei fod ef yn awyddus i ffurfio plaid o'i eiddo ei hun. Dywed wrthym, mae'r hyn oedd e' wedi wneyd oedd pregethu Crist, cyhoeddi fod yr Iesu croeshoeliedig yn dyfod fel y Messiah a hir ddysgwyliwyd am dano, ac y gallasai pawb a gyfiawnhawyd trwy ffydd fyned i mewn gydag ef i deyrnas nefoedd. Beth oeddynt yn feddwl wrth siarad am fod yn eiddo Paul neu Apolos? Yr oedd un wedi planu, y llall wedi dyfrhau, ond nid oedd dim yn hyny i gyfiawnhau yr enwau a'r teimladau sectyddol yma. Duw yn unig oedd wedi rhoddi'r cynnydd, wedi rhoddi i bob dyn ei duedd naturiol a'r galluoedd o weledigaeth ysprydol o'r rhai yr oedd ffydd wedi tarddu. Fel y gellid dysgwyl gyda meddyliau gwahanol, yr oedd yn rhaid fod amrywiaeth barn. Yr oedd sylfaen wedi ei gosod, meddai Paul, ar yr hon yr oedd pob dyn i adeiladu goreu y gallai. Ac mae'n rhaid i bob dyn ofalu gwneyd ei oreu, oblegyd cawsai ei waith ei brofi megys trwy dân; tra y byddai pob peth darfodedig, megys coed, gwair, neu sofl, yn cael ei losgi. Etto, er i'r dyn ei hun oddef colled, efe ei hun a fyddai cadwedig. Yr ydym yn gweled nad oedd Paul yn meddwl y byddai dyn yn golledig o herwydd cyfeiliornad mewn barn, er y gwyddai fod gwahaniaeth rhwng gwirionedd a chyfeiliornad, rhwng yr hyn a allai, a'r hyn na allai, sefyll prawf amser. Ei ddymuniad ef oedd gwneyd ei eglwys y deml fwyaf mawreddog possibl i Dduw, a gweled terfyn ar yr ymffrostio yma mewn arweinwyr dynol, a doethineb dynol. Bydded iddynt annghofio pa un ai i Paul neu i Cephas y perthynent, yn y meddwl anfeidrol uwch eu bod i gyd yn Gristionogion, a bod Crist yn eiddo Duw.

Gall y dosparth ddarllen y bennod gyntaf a'r drydedd a sylwi ar bethau pwysig ereill, y rhai mae Paul yn drin yn y pennodau canlynol. Mae yn beio y dysgyblion am fyned i ymgyfreithio â'u gilydd, ac wedi'n yn rhoddi rhai cynghorion synwyrol iawn ar y pwnc o briodas; ond yma mae'n rhaid i ni gofio ei fod yn dysgwyl y byddai terfyn buan i'r byd. Mae'n cymmeryd i fyny yr hyn oedd ar y pryd hwnw yn gwestiwn pwysig, a oedd yn iawn i fwyta bwydydd oeddynt wedi eu haberthu i eilunod, yn ei benderfynu ar egwyddorion synwyr cyffredin ac ystyriaeth dyner o deimladau ereill, ac yn dangos yn ei achos ei hun fod hawliau uwch dyledswydd ambell waith yn gwahardd pethau nad ydynt yn bechadurus ynddynt eu hunain. Mae'n siarad ar gyflwr benywod (xi, cymh. xiv 34, 35), ac mewn cyssylltiad a'r pwnc hwn mae'n angenrhaid mwyaf i gofio mor hollol neillduedig yr oedd benywod Groegaidd parchus yr amser hwnw yn byw. Yn nesaf, mae'n canlyn yr hanes boreuaf sydd gyda ni am sefydliad Swper yr Arglwydd; wedi'n mae y bennod enwog hono y ddeuddegfed ar "yr amryw ddoniau a'r un yspryd" a'r un fwy enwog byth, y drydedd ar ddeg, ar gariad. Yn y

bedwaredd bennod ar ddeg, mae rhai cyfarwyddiadau gyda golwg ar drefn addoliad cyhoeddus, yr hwn oedd yn fwy tebyg i gyfarfod gweddi na gwasanaeth crefyddol yr oesau diweddar (ad. 26); ac yn ddiweddaf cawn y bennod fawreddog a gogoneddus ar yr Adgyfodiad. Ac nid yw Paul yn annghofio yn ei eiriau diweddaf i gymhell i'w sylw y casgliad er budd y dysgyblion yn Jerusalem ag oedd ef wedi ymrwymo i'w godi. Mae yr holl epistol gan hyny yn dangos Paul i ni fel Apostol mawr y cenedloedd, yn adeiladu i fyny ac yn llywodraethu yr Eglwysi sefydlodd trwy ei ymdrechion diflino.

V.

Yr oedd Paul wedi bwriadu gadael Ephesus yn ystod y Sulgwyn 58, ond ni oddefwyd iddo i ymadael yn heddychol. Codwyd terfysg gan ei elynion, a'i gosododd yn agored i beryglon ag oedd ef yn rhy gynnefin â hwy, ac ymddengys ei fod wedi dianc o'r ddinas ar ol derbyn niweidiau personol llymion, a dim ond ei fywyd gydag ef (Actau xix. 21—41; 2 Cor. i. 8). Trodd oddiyno i'r gogledd ar ei ffordd i Troas, lle y gobeithiai i ddyfod o hyd i Titus, a chan na ddarfu iddo ei gael, croesodd drosodd i Macedonia, lle y cyfarfyddodd a'r dysgybl oedd e' wedi hir-ddysgwyl am dano. Ymddengys na chafodd yr epistol cyntaf at y Corinthiaid ddim o'r effaith briodol i atal eu hymrysonau, ac i sylfaenu ei awdurdod fel sylfaenydd eu Heglwys. Yr oeddynt yn gwadu ei awdurdod apostolaidd, yn honi ei fod yn gwyrdroi'r ysgrythyrau, (h.y. yr Hen Destament), ac hyd y nod yn enllibo ei gymmeriad mewn ffyrdd iselwael, trwy wneyd allan ei fod yn defnyddio at ei amcanion ei hun y cyfraniadau oedd ef wedi dderbyn ar gyfer yr Eglwys yn Jerusalem. Darfu i Paul yn debygol ysgrifenu llythyr llym i Corinth, yr hwn sydd wedi myned ar goll. Beth bynag am hyny, anfonodd Titus yno, a phenderfynodd i beidio ymweled a'r lle ei hun, os na allai wneyd hyny mewn yspryd cyfeillgar. Yr oedd gan hyny yn awyddus i glywed yr adroddiad a ddygai Titus yn ol gydag ef. Yr oedd yr adroddiad hwn yn bob peth ellid ddymuno (2 Cor. vii 5—13). Yr oedd y mwyafrif yn yr Eglwys yn ymlynu yn wresog wrth Paul a'r efengyl o ffydd, ac yr oeddynt wedi troi mor ffyrnig yn erbyn ei brif wrthwynebydd fel yr oedd Paul yn ei theimlo yn ddyledswydd i gymmedroli eu sêl yn ei achos (Cymh. pen. ii. 1—13). Yn y cyflwr yma o feddwl, ynte, mae ef yn dechreu yr

Ail Epistol at y Corinthiaid;

wedi ei ysgrifenu o ryw dref yn Macedonia yn nghylch hydref y flwyddyn 58. Ond unwaith y dechreuodd gyfansoddi ei lythyr, mae'n teimlo ei hun yn cael ei gyffroi i siarad ar lawer o bethau ag oedd ei feddwl yn llawn o honynt. Mae'n siarad am ei droedigion, fel ei lythyrau canmoliaeth, llythyr Crist wedi ei ysgrifenu ar eu calonau fel ar lechau o gnawd (iii. 1—3). Mae'n dyrchafu gogoniant efengyl yr yspryd (iii. 4—18). Mae'n siarad am onestrwydd a didwylledd ei bregethu, ac yn crybwyll, yn yr iaith fwyaf cyffrous, am y cymhorth dwyfol a dderbyniai o dan ei brofedigaethau (iv. darllener yn neillduol 7—10, 16—18). Mae hyn yn ei arwain i siarad etto am ei hyder

mewn bywyd dyfodol, yn gystal ag am y possiblrwydd o arwain bywyd Cristionogol yn y byd hwn (v.); ac i ddweyd ychydig eiriau am ei fywyd ei hun (vi. 1—10; darllener yr adnodau hyn, a sylwer fod Paul yn siarad am dano ei hun a'i gydlafurwyr Timotheus, Titus ac ereill). Yn y bennod nesaf mae'n gosod allan y llawenydd a deimlai ar ol clywed adroddiad Titus (Cymh. adnodau 5—10); ac wedi'n yn y pennodau viii a ix. Mae yn eu hannog i wneyd casgliad da ar gyfer y brodyr tlodion yn Jerusalem. Ar ol hyn dychwela drachefn at y cyhuddiadau oedd wedi cael eu dwyn yn ei erbyn yn mhlith ei droedigion ei hun, gwrthwynebiad oedd wedi cyffwrdd a'i galon i'r eithaf, a therfyna yr epistol gydag hunan-amddiffyniad mwyaf cyffrous sydd yn ein dwyn i'r cydymdeimlad llwyraf â dyn oedd mor drwyadl, mor angerddol yn ei ddifrifoldeb, a'r hwn a allasai wneyd a dyoddef y fath bethau er mwyn Crist a'r efengyl. Ymdrechwch i sylweddoli beth oedd ystyr y rhestr hono o beryglon a chospau oedd ef wedi cael ei ddarostwng iddynt. Mor annrhaethadwy o chwerw mae'n rhaid fod y peryglon hyny oddiwrth frodyr gau, ac mor drwm oedd baich "gofal yr holl eglwysi." Yn mhennod xii, mae Paul yn siarad am weledigaethau a dadguddiedigaethau oeddynt wedi eu rhoddi iddo, ac am y swmbwl yn y cnawd oedd yn parhau i'w adgofio am ei wendidau dynol, ond yr hwn oedd yn achlysur iddo i ddysgu fod gras Duw yn ddigonol ar gyfer ei angenion, a bod ei nerth wedi ei berffeithio mewn gwendid.

VI.

Darfu i Paul barhau ei daith o Macedonia i Corinth, ac aros ryw amser yn y dref hono. Gadewch i ni obeithio fod ei arosiad yn hyfryd ac yn adfywiol. Beth bynag am hyny, cafodd amser i ysgrifenu ei draethawd mawr duwinyddol, ac i osod allan yn gyflawn gyda digon o fanylrwydd ac eglurhad, ei *Athrawiaeth o Brynedigaeth Cristionogol*, neu *Efengyl Cyfiawnhad trwy Ffydd*. Yr oedd Eglwys Gristionogol yn Rhufain nad oedd Paul wedi weled erioed, ond wedi clywed llawer am dani, â'r hon yr oedd ef yn bwriadu ymweled yn mhen ychydig. Yr oedd Rhufain yn awr yn brif ddinas ymherodraeth fawr, a gynnwysai yr holl wledydd oddiamgylch Môr y Canoldir, ac yr oedd o'r pwysigrwydd mwyaf fod y wir efengyl yn cael ei phregethu yn effeithiol yn y fath le. Ond gan fod yn rhaid i Paul fyned i Jerusalem, cyn ymgymeryd a thaith bellenig, yr oedd yn gorfod ymfoddloni ar ysgrifenu

Yr Epistol at y Rhufeiniaid.

Ar yr achlysur hwn nid oes amgylchiadau neillduol yn bodoli i roddi tôn neillduol i'r llythyr: 'does dim eisiau iddo i amddiffyn ei hun nac i gyhuddo ereill; ond mae'n ysgrifenu ar y gwirioneddau dyfnion crefyddol oeddynt yn ei olwg ef y sylweddau mwyaf bywiol possibl, a'r rhai nid oeddynt o bwysigrwydd llai yn ngolwg ei gyd-gredinwyr anadnabyddus yn Rhufain. Nid yw bob amser yn hawdd i ddweyd yn gymhwys beth yw ei feddwl yn yr Epistol hwn, ond nid yw hyn yn un esgusawd dros y dull rhyfedd ac annaturiol yn yr hwn mae y llyfr yma yn cael ei esbonio. Mae pobl yn rhy fynych yn cymmeryd i fyny un neu ddau o'r ymadroddion mwyaf tywyll a ffigyrol, ac yn adeiladu

arnynt rhyw gyfundrefn neillduol gyda chymhorth dyfyniadau o ranau ereill o'r Beibl. Mae hwn yn ddull hollol gyfeiliornus, ac yn neillduol annghymhwys yn yr achos presenol. Gallwch fod yn sicr fod Paul *yn yr Epistol hwn* yn dweyd beth bynag sydd o bwys hanfodol i'w ddealldwriaeth gywir, a dylem yn gyntaf geisio cael gafael yn llinell gyffredinol ei ymresymiad, ac yna chwilio am ystyr yr adnodau anhawdd gyda'r wybodaeth yma o ymresymiad yr epistol yn gyfarwyddyd i ni.

Dengys Paul yn gyntaf fod yr holl fyd, Iuddewon a chenedloedd, yn llwythog gan euogrwydd, ac mewn angen am waredigaeth oddiwrth bechod. Mae ef yn profi hyn, nid trwy siarad am lygredd gwreiddiol ac euogrwydd etifeddol Adda, ond trwy gyfeirio (1) at anfoesoldeb gwarthus y cenedloedd (Pennod i.), (2) at ymadroddion yn yr Hen Destament a gyhuddent yr Iuddewon o ddrygioni (iii) a dangos (ii) na allasai dim allanol, dim ond tueddiad mewnol ac ufudd-dod i gydwybod, osod dyn yn iawn neu ei gyfiawnhau o flaen Duw. Yr oedd angen gwaeddfawr am grefydd newydd; ni allasai hyd y nod y ddeddf Iuddewig gynnyrchu y cyfiawnder ag mae Duw yn ofyn. Nis gallasai hwn gael ei ennill mewn un modd, yr oedd i gael ei feddiannu yn unig fel dawn rydd o eiddo Duw yr hon a roddid i bawb ar ammod ffydd, heb fod un gwahaniaeth rhwng Iuddew a chenedl-ddyn. Mae Paul yn eglurhau y gallu yma o eiddo ffydd trwy gyfeirio at achos Abraham (iv); ffydd yn Nuw sydd yn ofynol, ynddo Ef yr hwn a gyfododd Iesu oddiwrth y meirw, ac yn y modd hyny a drôdd farwolaeth Crist i fod yn foddion i gynnyg yn rhydd iachawdwriaeth i'r holl fyd. (Cymharer hanes profiad personol Paul yn y Wers i). Mae y bumed bennod yn swmio i fyny yr hyn mae ef wedi ddweyd, ac yn cyffwrdd â rhai materion perthynasol. Yn y chweched bennod, dengys Paul nad yw cyfiawnhad trwy ffydd ddim yn arwain i foesoldeb llaes, oblegyd mae yr hwn sydd ganddo ffydd wedi dyfod yn farw i bechod, ac mae'n arwain bywyd yn Nghrist, hyny yw fel Cristion. Yr oedd y ddeddf wedi gwasanaethu amcan defnyddiol wrth ddeffroi argyhoeddiad o bechod, ond tra y taflai brofedigaethau yn ffordd pobl, nid oedd yn rhoddi iddynt nerth moesol i wrthwynebu drwg. Yr oedd gwaredigaeth oddiwrth bechod i gael ei gyrhaedd yn unig trwy gymhorth yspryd mabaidd, yr hwn a fyddai Duw yn gyfranu i'r rhai a ymddiriedent yn llwyr iddo ef. Gallasai y rhai a deimlent eu hunain yn etifeddion i Dduw ac yn gydetifeddion â Christ, ennill buddugoliaeth hawdd ar demtasiynau'r cnawd; mewn modd rhyfeddol, yn wir, yr oedd cariad Duw wedi ei wneyd yn amlwg yn Iesu Grist.

Mae hyn yn terfynu prif ymresymiad Paul, ac mae ef yn myned yn mlaen yn y pennodau ix.—xi., i osod allan ei gydymdeimlad â'i gydwladwyr, oeddent yn colli yn hollol eu hen safle fel cenedl ddewisol gerbron Duw; ond mae'n rhybuddio y Cenedloedd i beidio bod yn wag-ogoneddgar, ac mae'n amlygu ei obaith am droedigaeth holl Israel yn y diwedd. Mae'r gweddill o'r Epistol yn cael ei gymmeryd i fyny yn benaf gan anogaethau moesol, ac os nad yw'r athraw yn teimlo ei hun yn alluog i roddi gwers ar athrawiaeth Paul, nis gall

wneyd dim yn well na darllen yn y dosparth y bennod xii. Mae yn amheus a ydyw'r ddiweddaf yn perthyn i'r Epistol fel ag yr ysgrifenwyd ef ar y cyntaf.

VII.

Yn debygol, fe arosodd Paul yn Corinth hyd wanwyn y flwyddyn 59, ac yna cymmerodd ei daith ddiweddaf i Jerusalem, gan ddwyn gydag ef yr arian oedd ef wedi gasglu mor ddiwyd; ond ni ddarfu i'r prawf yma o ewyllys da ei achub rhag cynddaredd dallbleidwyr y Gyfraith, y rhai ar ol croeshoelio yr Iesu, a llabyddio Stephan, a wnaethant eu goreu i ladd Paul. Pa un a oedd gan y Cristionogion Iuddewig law yn y mater neu peidio, nis gallwn ddweyd, ond gallwn bron fod yn sicr na ddarfu iddynt ddim gwneyd ymdrechion mawr i waredu Paul; ond daeth gwaredigaeth er hyny oddiwrth pen-capten Rhufeinig y ddinas, gwaith yr hwn oedd cadw trefn yn mhlith yr Iuddewon aflywodraethus. Anfonwyd Paul i Cesarea, lle yr oedd Ffelix, y Rhaglaw Rhufeinig, yn arfer byw, a chadwyd ef yno yn garcharor am ddwy flynedd. Yn ystod y carchariad hwn mae yn fwyaf tebyg iddo ysgrifenu yr

Epistol at Philemon.

Yr oedd Philemon yn un o drigolion Colosse, oddiwrth yr hwn yr yr oedd Onesimus, un o'i gaethion, wedi rhedeg ymaith, ac, rywfodd neu gilydd, wedi dyfod i gyffyrddiad â Paul. Darfu i'r Apostol ei droi at Gristionogaeth, a dweyd wrtho am ddychwelyd at ei feistr, yr hwn oedd, yn ol yr Epistol hwn, yn ddysgybl Cristionogol da, ac yn gydweithiwr egniol gyda Paul. Etto, yr oedd yn debyg y byddai yn ddigofus tuag at gaethwas oedd wedi ffoi ymaith, ac felly mae Paul yn ysgrifenu ato gan ddeisyf arno i dderbyn Onesimus nid fel caethwas, ond fel brawd anwyl. Mae hyn yn dangos y fath ddylanwad cryf personol oedd gan Paul, fel ag i'w alluogi i beri i Onesimus i ddychwelyd. Mae'n debyg iddo ddefnyddio y dylanwad hwn oddiar yr un cymhelliad a'i gwnaeth i orchymyn ufudd-dod i awdurdodau a llywodraethwyr yn gyffredinol (Rhuf. xiii. 1—7). Nid oedd ganddo ef un dymuniad ar i'w efengyl i fod yn ffafriol i unrhyw chwyldroad cymdeithasol neu wleidyddol: y berthynas rhwng dynion â Duw, nid rhwng dyn a dyn, a ddymunai ef gyfnewid o'r gwraidd; ond mae'n beth afresymol a gwrthun i ddyfynu ymddygiad Paul mewn amddiffyniad o'r fath fesurau a Chyfraith y caethion ffoedig (*Fugitive Slave Law*), neu i dybied y byddai Paul o dan amgylchiadau hollol wahanol, pan y mae rhyddid personol wedi dyfod yn enedigaeth-fraint pob bod dynol, yn cymmeradwyo y weithred o anfon caethion ffoedig yn ol i'w perchenogion blaenorol.

Cafodd Paul o'r diwedd ei ddwyn i brawf gerbron Ffestus, olynydd Ffelix, ac ar ol appelio, yn rhinwedd ei hawl fel dinesydd Rhufeinig am gael gwrandawiad o flaen yr Ymherawdwr, cafodd ei anfon i Rufain yn Hydref y flwyddyn 61. Dyoddefodd longddrylliad ar y ffordd, ond ar ol taith o chwech mis, cyrhaeddodd yn ddyogel y ddinas fawr ag oedd ef wedi hir ddymuno ymweled â hi. Yma cafodd

ei gadw mewn carchariad esmwyth am ddwy flynedd, ar ddiwedd y rhai y cymmerodd erledigaeth ofnadwy o'r Cristionogion le yn Rhufain. Yn debygol, cafodd ei osod i farwolaeth, (o. c. 64) gyda llawer o ddysgyblion flyddlon ereill, ydynt yn anadnabyddus mewn hanes; o leiaf yr ydym yn colli golwg arno yn gyfangwbl o'r amser hwn.

Mae llawer o Epistolau ereill ydynt yn dwyn ei enw, a llawer o'r rhai a dybir yn gyffredin eu bod wedi eu hysgrifenu ganddo o Rufain yn ystod ei garchariad; ond mae'n debyg fod y rhan fwyaf o honynt wedi eu hysgrifenu gan ei ddysgyblion ar ol ei farwolaeth, a'r unig un allwn ni briodoli iddo ef gydag unrhyw fesur o hyder, yw yr

Epistol at y Philippiaid.

Yr oedd yr Eglwys yn Philippi wedi ei sefydlu gan Paul oddeutu y flwyddyn 55, pan yr oedd ef ar ei *Ail Daith Genadol*, ac, o'r holl Eglwysi yn Macedonia, ymddengys mai hon oedd y mwyaf hoff o hono, a'r mwyaf anwyl yn ei olwg. Yr oedd ei haelodau cyn hyn wedi anfon cyfraniadau iddo, ac yn awr, ar ol clywed am ei garchariad, darfu iddynt anfon Epaphroditus ato gyda chymhorth ychwanegol. Yr oedd Epaphroditus, ar ol bod yn sâl iawn yn Rhufain, yn dymuno dychwelyd i Philippi, ac mae Paul yn anfon y llythyr yma gydag ef. Mae'n lythyr o gydnabyddiaeth ddiolchgar o'u caredigrwydd, ac mae'n cynnwys anogaethau cyffrous, y cyfryw ag y gallai yr Apostol oedranus roddi i'r dysgyblion a'i carent. Gallwn sylwi hefyd nad yw Paul yn ymddangos yn awr fel yn dysgwyl am ddychweliad buan Crist i'r ddaear, ond mae yn hytrach yn edrych yn mlaen at yr amser y caiff gyfarfod ag ef yn y nefoedd. Darllener y bennod gyntaf, a sylwer yn neillduol ar adnodau 21—24. Dedwydd yn wir yw y dyn all ddweyd "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

VIII.

Yn awr yr ydym yn cymmeryd i fyny yr

Epistol at yr Hebreaid.

Mae yr Epistol hwn yn ddienw, oblegyd nid oes un awdurdod i'w gael yn y Llawysgrifau boreuol dros ei briodoli i Paul yn y teitl, a gallwn fod yn hollol sicr, oddiwrth ei weithredoedd a'i gynnwysiad, mai nid Paul a'i hysgrifenodd. Mae damcaniaethau gwahanol wedi cael eu gwneyd mewn perthynas i'w wir awdwr; mae yn bossibl mai Apolos, â'r hwn yr ydym ni wedi gyfarfod yn barod mewn cyssylltiad â'r Eglwys yn Corinth, oedd yr awdwr. O leiaf, cafodd ei ysgrifenu gan gydoeswr i Paul, o flaen dinystr y deml yn Jerusalem, o. c. 71, a chan Gristion oedd yn hollol adnabyddus â'r athroniaeth grefyddol a'r dull o feddwl a fodolai yn Alexandria yn yr Aifft; a'r esponiad sydd wedi cael ei awgrymu o'r teitl "At yr Hebreaid," yw ei fod wedi cael ei anerch at y dosparth Iuddewig o'r gymdeithas Gristionogol yn y ddinas hono. Yr oedd y lle wedi bod yn hir enwog am ei ysgolion oeddent yn dysgu yr Athroniaeth Roegaidd a Dwyreiniol; yr oedd trefedigaeth luosog o Iuddewon wedi ymsefydlu yno, ac yr oedd llawer meddyliwr dwfn yn eu plith wedi ei swyno gan gau athrawiaeth

doethion y Cenedloedd; ond nid oedd un Iuddew yn caru cydnabod fod unrhyw wirionedd yn bodoli nad oedd yn gynnwysedig yn eu hysgrythyrau hwy. Felly tyfodd i fyny y gyfundrefn o arallegu (*allegorize*) yr Hen Destament, ac os cawsai Iuddew afael ar ryw feddwl neu syniad a garai mewn athroniaeth dramor, yr oedd yn dychymygu y gallasai ei gael yn ei Ysgrythyrau ei hun, wedi ei guddio yn ffurf Alegori (cymh. Gal. iv. 21—31). Arweiniodd y dull yma i arferiad arall, sydd wedi cynnyrchu y dylanwad mwyaf pwysig ar dyfiant y dduwinyddiaeth uniawn-gred, sef yr arferiad o bersonoli priodoleddau dwyfol, siarad am nodweddion neu gynneddfau y Duwdod, fel pe byddent yn bersonau gwahanol. Oddeutu y flwyddyn 100 cyn Crist, yr oedd Iuddew yn byw yn Alexandria, yr hwn a ysgrifenodd lyfr a elwir "*Doethineb Solomon*," llyfr sydd i'w weled yn yr Apocrypha. Yma mae genym ddesgrifiad prydferth o *Doethineb Duw*, ond siaredir am dani fel person yn hytrach nag fel priodoledd. "Oherwydd y mae ynddi hi yspryd deallgar, santaidd . . . Yn hoffi daioni . . . Canys angerdd gallu Duw yw hi . . . . dysglaerdeb y goleuni tragwyddol, difrycheulyd ddrych gweithrediad Duw, a delw ei ddaioni ef. (Doethineb Solomon vii. 22—26.) Yn awr, cymharwch yr iaith yma a'r adnodau 1—3 yn y bennod gyntaf o'r Hebreaid, a chwi welwch ddechreuad cyntaf braidd y dadblygiad hir athrawiaethol hwnw a drodd Iesu o Nazareth yn ail berson yn y Drindod. Mae yr awdwr yn cymhwyso at yr Iesu iaith a syniadau a ddefnyddid yn wreiddiol mewn perthynas i briodoledd ddwyfol. Mae'n gwneyd hyn gan ei fod yn awyddus i ddangos fod Crist yn meddu ar sefyllfa lawer mwy derchafedig na'r angelion, ac mae'n myned yn mlaen i brofi hyn trwy ddyfyniadau o'r Psalmau (darllener y gweddill o'r bennod gyntaf). Mae'n cymmysgu y dyfyniadau yma mewn ffordd anfeirniadol (*uncritical*) iawn, ac yn cymhwyso at Fab Duw iaith a ddefnyddid yn wreiddiol am freninoedd Iuddewig, yn gystal ag iaith a anerchid i'r Duw oeddent yn addoli; ac mae'n beth hynod iawn ei fod yn adnod 8, i bob ymddangosiad, yn anerch y Mab fel "O Dduw." Mae hyn i gyd yn cael ei wneyd er mwyn dangos fod y Cyfammod Newydd, yr Efengyl Gristionogol, yn rhywbeth llawer rhagorach nâ'r Hen Gyfammod, y Grefydd Iuddewig. Yn neillduol mae yn awyddus iawn i brofi fod y gyfundrefn Iuddewig o aberthau, ei hallor, ei hoffeiriaid, a'i hoffrymau, yn awr wedi cael ei diddymu yn ffafr Cyfundrefn yn yr hon Crist oedd yr unig offeiriad, archoffeiriad, fel Melchisedec, yr hwn oedd yn offeiriad ac yn frenin, ac yn yr hon yr oedd un aberth, sef aberth bywyd Crist ei hun ar Galfaria, i gymmeryd lle y teirw a'r geifr a offrymid yn ddyddiol yn Jerusalem. Mae'n dweyd ac yn ail-ddweyd mai Iesu Grist yw ein harchoffeiriad ni; ni chaniateid i offeiriaid blaenorol i fyned i mewn i'r cyssegr santeiddiolaf ond unwaith yn y flwyddyn i eiriol dros eu cyd-ddynion, ond mae Crist yn archoffeiriad yn dragwyddol, ar ddeheulaw Duw, ac yn eiriol dros ei ddysgyblion am byth. Mae llawer ag sydd yn brydferth yn y syniad yma, ac yn gymhwys iawn at angenion Iuddewon rhydd eu meddyliau, ac nis gallai yr awdwr weled

sut y byddai ei iaith hanner ffigyrol yn ymgaledu'n raddol nes ffurfio athrawiaethau anhyblyg dyddiau diweddarach. Mae ef yn credu mewn "cyfiawnhad trwy ffydd," mor gyfiawn ag y gwnai Paul, a gellir darllen yn awr y bennod adnabyddus hono,—yr unfed-ar-ddeg. Mae rhywbeth yn brydferth yn y ffordd ag mae holl ogoniant cenedlaethol yr Iuddewon yn cael ei briodoli i ymddiried crefyddol sydd yn "sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled," ac mae'r olwg yma ar hanes yr Iuddewon yn llawn gwirioned dwfn. W. J.

(I'w barhau.)

EMYNAU CYNAUAF.

PRINDER.

Ti sy'n anfon haul a gwlaw—
Yn llywyddu tir a môr;
Byth, nad beth i'n rhan a ddaw
Byth, na feiwn drefnau'n Iôr.

Haul neu wlaw fo yn ei dro
'N drygu neu'n addfedu'r grawn;
Hon ein gwers o hyd a fo—
Na rwgnachwn nad beth gawn.

Os ein hydlan fydd yn brin
A phrin pobpeth gylch ein tŷ,
Ni glywn etto'r geiriau hyn—
Ymddiriedwch ynof fi.

Oll sydd eiddom, eiddot ef,
I wneyd fel y mynost yw;
Portha ni â bara'r nef
Heddyw a thra byddom byw.

Tra'r tymhorau felly'n dwyn
Prinder, llawnder fel y lli',
Boed ein canu yn ddi gwyn
A'n llawn hyder ynot ti.

G. T.

LLAWNDER.

Mae planedau fyrdd yn troi
Drwy'r ëangder yn ddiball;
Yn eu cylchoedd ac yn rhoi
Eu tymhorau 'r naill i'r llall.

Ninau ar y ddaear hon,
Gwresog haf a hydref llawn,
Gauaf llwyd a gwanwyn llon,
Yn eu hamser cywir gawn.

Ćawsom 'leni ydlan lawn,
Gwenodd llwyddiant ar ein rhan;
Dyma amser cymhwys iawn
I ni gofio am y gwan;

Ac i osod peth yn stôr
Erbyn delo cnydiau llai;
Mae'r tymhorau fel y môr—
Weithiau llawn, weithiau trai.

Deued llanw, deued trai,
Boed yn fawr neu'n fach ein stôr;
Na foed i ni roddi bai
Ar Ragluniaeth ddoeth ein Iôr.

Molwn ei Ragluniaeth lân
Yn un côr a sêr y gwawl;
Rhown beroriaeth câu ar gân
Iddo'n deyrnged bêr o fawl.—G. G.

HAWL BARN BERSONOL.

Y MAE llawer o ddifyrwch wedi cael ei achosi yn ddiweddar oblegyd y sefyllfa y mae y Parch. Fergus Ferguson yn ei dal yn bresenol yn y *Scottish United Presbyterian Church*. Yr oedd ef yn un o'r cyfeisteddfod a bennodwyd yn y synod flynyddol ddiweddaf i gymmeryd dan ystyriaeth y pwnc o adolygu y Gyffes Ffydd. Ond gan ei fod yn un o'r rhai sydd yn gweled yn y modd mwyaf amlwg yr angenrheidrwydd am ei hadolyg-

iad dadganodd ei farn o'r pwlpud. Am wneuthur felly, darfu i'r Presbytery ei ddiswyddo am amser o'i ofal gweinidogaethol. Ar yr un pryd mae ei gyd-eisteddfodwyr wedi dadgan eu hymddiried ynddo, ac y mae yn aros yn mhlith yr ysgolheigion dethol-ig a duwinyddion, y rhai ddichon wasgu ar y Llys Uwchaf Eglwysig yr olwg o'r adolygiad maent hwy yn feddwl sydd briodol. Y mae yr hen ddiareb na ddylai gwneuthurwyr cyfraith fod yn dorwyr cyfraith, ond y mae yn sefyllfa newydd i gyfraith-dorwr i gael ei osod ar le uchel fel y gallo awgrymu cyfnewidiadau yn y gyfraith sydd wedi ei gondemnio ef. Oddiar olwg arall fe welir fod ffyrdd Llysoedd Eglwysig yn gwahaniaethu i raddau helaeth oddiwrth eiddo y byd lleygol. Y mae yn amlwg ddigon nad yw pwnc a ellir ei ddadleu yn gyflawn mewn cyfeisteddfod wedi ei appwyntio mewn modd priodol gan synod, ddim i gael ei sisial yn nghlustiau y bobl, y rhai fel y dywed yr Ysgrythyr (oblegyd gallwn ni ddyfynu testun fel ein cymmydogion), "y rhai ni wyddant y gyfraith, melldigedig ydynt." Ymffrost yr *United Presbyterians* yw bod yn rhydd oddiwrth ddrychiolaethau cyssylltiad rhwng yr Eglwys a'r Ystâl. Y maent yn rhoddi i Cæsar ei eiddo, ac i Dduw ei eiddo yntau, ac oblegyd hyny, ond odid, y maent gyda'r un cydwybodolrwydd yn rhoddi i'r synod yr hyn sydd eiddo iddi hi, ac i'r gynnulleidfa yr hyn sydd yn eiddo iddi hithau.

Ymddengys fod pobl ychydig yn nes i'r South, fodd bynag, yn mynwesu yr un meddylddrych gyda golwg ar y priodoldeb i un o adolygwyr y Beibl ddwyn yn mlaen heresiau newydd i glustiau y cyhoedd. Nid yw Dr. Vance Smith ddim dan awdurdod Llys Eglwysig o ddwyfol sefydliad, yr hwn allai ei drafod ef fel y mae y *Presbytery* uchod wedi trafod Fergus Ferguson. Ond y mae ymddygiad cyhoeddus yn agored i farnau pawb dynion; ac yn yr arferiad o'r rhyddid yma mae y Parch. W. Railton, gweinidog y Wesleyaid, trwy gyfrwng colofnau y *Carmarthen Express*, wedi cymmeryd arno y gorchwyl o farnu yn go lym ddarlithiau Dr. Smith ar y Beibl. Dechreuodd Mr. Railton, trwy amheu cyssondeb Dr. Smith, "yn gwasgu ei syniadau neillduol ei hun ar ereill, tra yn ei sedd fel un o adolygwyr y Beibl." Nid yw Mr. Railton ddim yn gwrthwynebu i bresenoldeb Dr. Smith yn nghwmniaeth adolygwyr y Testament Newydd; ac mewn ail lythyr mae yn myned mor bell a dywedyd, "Fel eich holl ddarllenwyr meddylgar, teimlwyf fod y dref yn cael ei hanrhydeddu wrth gael ynddi bresenoldeb ysgolor mor enwog. Ond pan y mae Dr. Smith yn dyfod yn mlaen, gyda'r pwys ychwanegol yr hwn y mae ei sefyllfa yn nghyfeisteddfod yr Adolygiad yn rhoddi iddo;" i wasgu ei syniadau ar y cyhoedd, "ni allaf ganiatau ei weithred i aros heb ei herio." Meddwl amlwg y gweinidog Wesleyaidd yw, nad yw y cyhoedd yn alluog i ofalu am dano ei hunan. Y mae yn gweled ein bod ni wedi cyrhaedd nôd feirniadol iawn yn hanes grefyddol y wlad. "Beth rhwng llodaeniad coelgrefydd Pabaidd ar un llaw, ac egwyddorion *infidel* ar y llall, mae bywyd ysprydol y genedl yn cael ei fwyta i fyny." Ac o herwydd ei fod ef yn credu fod y Beibl yn ein gosod yn y meddiant o'r unig offeryn effeithiol er adferiad a dyrchafiad y lluaws mae yn teimlo yn rhwym i wrthwynebu

"unrhyw ymdrech i iselu ei awdurdod oruchaf dros gydwybodau dynion." Yn awr, ni chawn fyned i mewn i ymresymiad yn nghylch y Beibl; ac nid ydym yn amheu nad oes llawer o anffyddiaeth o amgylch i ni yn gystal a llawer o goelgrefydd. Ond gan nad beth fydd y caulyniad o du coelgrefydd, mae yn beth sier y buasai amheuaeth yn dyfod yn llawer mwy peryglus mewn oes fel yr eiddom ni, pan y mae pob peth arall yn cael ei drafod neu ei ddadleu yn lliw dydd, os yw cwestiynau sydd yn dal cyssylltiad a sylfaenu athrawiaeth eglwysig i gael eu cadw yn nghlô o fewn panelau cedrwydd ystafell Jerusalem.

U. H.

Y MODD Y GWNEIR ATHROD.

Yn mhob athrod mae yr ystof a'r dylif *(warp and woof)*, ac meddai Dr. Cheever, yn anfynych mae yn dygwydd nad oes rhyw sail i weithio arni. Y dylif feallai fydd ffaith wedi ei hollol wyr droi, ond arni mae y dyn celwyddog yn gallu gwau ei ystof, ei ddarlun o enllib ac o athrod; ac mae yn dyfod allan i gyd yn un darn; ac nid oes neb all ddywedyd nad oes peth gwir ynddo, er pe byddai y gwir sydd ynddo yn cael ei bigo allan, fe safai y celwydd wrtho ei hun, yn gelwydd glân a digymmysg. Adroddir enghraifft gan Mr. Wilberforce am dano ei hunan. Cafodd ei hunan un tro yn cael ei ddal i fyny i fod yn wrthddrych gwawd cyhoeddus mewn newyddiadur annghyfeillgar; ac awdwr yr athrod yn rhoddi'r enghraifft a ganlyn o *Phariseaeth* ty biedig Mr. Wilberforce:—"Gwelwyd ef yn ddiweddar," meddai y newyddiadur cry bwylledig, "yn cerdded i fyny ac i waered mewn ystafell gyhoeddus, *yn darllen ei weddiau* fel ei ragflaenoriaid gynt, y rhai a weddient yn nghonglau yr heolydd er cael eu gweled gan ddynion."

Ar hyn, sylwa Mr. Wilberforce, "yn gymmaint a bod yn y cyffredin ryw amgylchiad bychan ag mae gwrthgasedd yn ei droi yn gyhuddiad, dechreuais feddwl, ac yn y man cofiais achlysur yr enllib. Yr oeddwn yn rhodiana yn y *Pump-room* mewn ymddyddan â chyfaill, pan y gwnaethpwyd cofia o weddi yn Horas, ac yr amheuwyd ei gywirdeb; a chan fod copi o Horas yn dygwydd bod yn fy mhoced, tynais ef allan a darllenais y geiriau. Dyma lle'r oedd tamaid o wifren (wire) ddiaddurn, yr hon y darfu i falais dall ei blaenllymu i drywanu fy nghymmeriad. Pa nifer o wneuthurwyr pinau ydynt felly ar waith yn troi darnau o wifren i fod yn saethau blaenllym a gwenwynig malais ac enllib!"

Mae drwg adroddiadau o'r fath, y canlyniadau a gynnyrchir gan y cyfryw glecceiaeth, a thrwy yr adroddiad anystyriol o enllib a malais yn fwy nag y gellir ei gyfrif. Mae yr arferion llygredig a thruenus yma o chwedleua, ac ymyraeth, o absenu a chydsisial yn nghlustiau y naill y llall, yn achos y rhan fwyaf o'r cwerylon, yr ymddieithriadau, yr eiddigedd, a'r ymrafaelion anwelladwy a geir mewn teuluoedd. Dichon y tamaid lleiaf a mwyaf syml o wifren, gael ei droi trwy weithrediad malais, i fod yn gleddyf a drywana er dinystr i bob heddwch ac

hapusrwydd. Mae yr awdurdod lleiaf yn ddigon i roddi cylchrediad i newydd drwg, ac y mae digon o ddynion yn barod i'w gymmeryd i fyny a'i wasgar. Megys mewn perthynas i Jeremiah: "Mynegwch, meddant, a ninnau a'i mynegwn: pob dyn heddychol â mi oedd yn dysgwyl i mi gloffi, gan ddywedyd, Ysgatfydd efe a hudir, a ni a'i gorchfygwn ef, ac a ymddialwn arno." Ac felly hefyd mewn perthynas i Nehemiah. "Yn mysg y cenedloedd y mae y gair, a Gasmu sydd yn dywedyd, dy fod di a'r Iuddewon yn amcanu gwrthryfela . . . Ac yn awr y fath ymadroddion a hyn a glyw y brenin." Gasmu sydd yn dywedyd, hwn a hwn sydd yn dywedyd, a chymmerir hyny fel awdurdod digonol. Beth wyddai Nehemiah am Gasmu? Beth wyddai neb am dano? Ond y mae yn wastad ddigon o deulu Gasmu i ateb pwrpas yr athrodwr. Ond er i deulu Gasmu fod mor lluosog a mwyar duon, mae cyfraith Duw yn benderfynol ac mewn geiriau eglur: Mae yn amgau y drwg hwn â llawer o ragddarpariaethau, ac yn ei amgylchu â mur, fel mae pwy bynag a'i cyflawno, fel pe bai yn tori trwy byrth fflamllyd i'r pwrpas, Na chyfod enllib; na ddod dy law gyda'r annuwiol i fod yn dyst anwir. Na ddilyn luaws i wneuthur drwg; ac nac ateb mewn ymrafael, gan bwyso yn ol llaweroedd i wyro barn. Ymgadw yn mhell oddiwrth gam-fater. Arglwydd, pwy a drig yn dy babell? Yr hwn nid absena â'r dafod, ac ni wna ddrwg i'w gymmydog, ac ni dderbyn enllib yn erbyn ei gymmydog.

Ac yna, sylwer ar aneglurdeb ac anmhennodolrwydd y cyhuddiad, wedi ei sylfaeni ar yr hyn oedd yn ol natur pethau yn anmhossibl ei wybod oddieithr trwy ymddygiad noeth, sylfaenedig ar ddrwgdybiaeth neu ddyfaliad o feddyliau dynion. "Dy fod di a'r Iuddewon yn *amcanu* gwrthryfela!" Nid oedd dim esgus eu bod *wedi* gwrthryfela; nid oedd dim eisiau dechreu y celwydd mewn modd mor drwsgl ac annghelfydd; yr oedd yn ddigon i osod ar dreigl *ddyfaliad ei fod yn bwriadu*. Pwy bynag gymmerai yr adroddiad hwnw i fyny, byddai yn sier o'i osod allan fel yma: "Fe ddywedir fod gwrthryfel yn Jerusalem." "Gwrthryfel?" "Pwy sydd wrth ei wraidd?" "Nehemiah, y tywysog." "A pha le mae y prawf o'r peth hwn?" "O, Gasmu sydd yn ei ddywedyd." "A phwy ydyw Gasmu?" "O nid oes neb yn gwybod dim am hyny, ond yn ddiamheu ei fod yn rhyw ddyn o bwys.

Y GWELEDIG A'R ANWELEDIG.

Peth tra hynod yw sylwi ar y gwahanol ffyrdd yn y rhai y mae dynion yn barnu am eu gilydd, ac o ganlyniad, y casgliadau gwahanol y maent yn dyfod iddynt. Y mae rhai yn prisio ac yn gwerthfawrogi eu cyd-ddynion, yn benaf, am yr hyn ddichon fod ganddynt. A ydyw efe yn gyfoethog? ydyw y gofyniad cyntaf sydd yn ymgynnyg i'w meddyliau, ac yn dyfod allan dros eu genenau, pan yn flurfio cyssyllt-iad newydd â rhyw ddyn. Beth ydyw ei feddianau, pa gymmaint o

dir sydd ganddo, a pha fodd y mae yn byw? neu, pa gymmaint o awdurdod sydd ganddo, pa gymmaint o anrhydedd mae yn gael, pa gymmaint o gymmeradwyaeth ei gyd-ddynion? Ar yr ateb i'r fath ofyniadau y maent yn sylfaenu gwerth dyn. Yn ol maint yr eiddo y gall osod ei law arno a dywedyd "fy eiddo i yw hwn," y maent yn ei barchu. Dyma'r safon waelaf feallai a ellir gymmeryd, ond peth cyffredin ddigon yw serch hyny.

Un arall yw cymmeryd gweithredoedd fel unig safon ei werth. Beth mae wedi gyflawni? yw y gofyniad. A ydyw wedi adeiladu ty, neu sylfaenu dinas, neu lywyddu byddin, neu ysgrifenu llyfr? A ydyw yn llwyddo yn ei fasnach, yn cynnal ei deulu yn anrhydeddus, yn llanw ei le yn briodol mewn cymdeithas, yn addysgu yr ieuanc, ac yn cynnorthwyo yr anffortunus? Diamheuol yw fod hon yn safon lawer uwch na'r blaenaf i farnu ein cyd-ddynion wrthi. Nid yw meddiannau, pa gymmaint bynag y dichon iddynt fod, ond pethau tu allan i'r dyn, tra y mae ei ymddygiad yn ffurfio rhan bwysig o hono. Yni, gweithred, cyflawniad, ydynt brofion o allu mewnol, ac amlygiadau allanol cymmeriad. Y mae gweithredoedd rhagorol, cyflawniadau gwronaidd, ymddygiad a thrafodaeth deg a bywyd pur, nid y mwyaf dymunol a rhagorol yuddynt eu hunain, ond y maent megys yn dwyn tystiolaeth mor gryf i ragoriaeth y sawl sydd yn eu cyflawnu, fel nad yw yn beth dyeithr fod llawer o ddynion yn eu hystyried fel coron uwchaf dynoliaeth a phrif amcan daioni a phrydferthwch moesol. Etto i gyd y mae rhywbeth tu cefn i'r rhai yma oll, bywyd mwy pur a mwy galluog nag un ymddangosiad allanol o hono, sydd yn awgrymu uwch meddiant na'r hyn sydd wedi ei gyrhaedd eisoes. Y mae pob peth allanol, gan nad pa mor werthfawr bynag y dichon iddo fod, wedi cael ei achosi gan rywbeth uwch a gwell nag ef ei hunan. Nid yw y gorddoriaeth fwyaf odiaeth a swynodd y glust erioed ond ymdrech lwyddiannus rhanol o athrylith i osod allan beth sydd yn yr enaid dynol. Cafodd yr adeilad mwyaf ardderchog, yn nghyd a'i holl effeithiau ymddangosiadol dymunol, ei ddechreuad yn meddwl y pensaer. Y mae y darlun mwyaf prydferth a baentiwyd erioed yn llai prydweddol na'r darlun yn meddwl y celfyddwr, yn nychymyg yr hwn y cafodd gychwyniad. Yr ydym oll yn ymwybodol o rywbeth o'n mewn sydd yn llawer mwy rhagorol na'n hymdrechiadau uwchaf a goreu. Iaith, er engraifft, yw y cyfrwng trwy yr hwn yr ydym yn trosglwyddo ein meddyliau i'n gilydd, ond a yw fyth yn gosod allan y modd y dymunem ein meddyldrychau? Onid ydym, er ein gofid, yn ymwybodol fod ein geiriau yn gyfryngau rhy anmherffaith i gyfleu ein meddyliau yn hollol fel y carem? Nid yw y farddoniaeth fwyaf swynol a melus ddim mor felus a dychymyg y bardd a'i hysgrifenodd. Pa wir garwr sydd erioed etto wedi cael allan eiriau i osod allan deimladau ei galon? Pa ffurf o addoliad all ddesgrifio yn gyflawn ddyheadau dwys dirgel, a dysgwyliadau a chodiad parchus yr enaid i fyny? Felly nid yw ymddygiad ond dangoseg niwlog o gymmeriad. Y mae yn dangos, mewn modd anmherffaith, i ba gyfeiriad y mae ein traed yn myned, ond nid mor bell ag y maent wedi cyrhaedd, a

llawer llai pa mor bell y gallant gyrhaedd. Tyfiant parhaus yw cymmeriad; nid yw byth yn sefyll yn llonydd. Ymddygiad yw y datganiad allanol o gyflwr presenol y tyfiant hwnw. Nid yw yn dangos ond un olwg o ddadblygiad, tra y mae y natur ddynol yn myned drosodd at un arall. Os gwir hyny, pa mor ofalus y dylem fod yn ein gwaith yn barnu ein gilydd. Nid yw yr hyn sydd yn amlwg yn ddim mewn cymhariaeth i'r hyn sydd anamlwg. Gwelwn bechod dyn, ond ni allwn weled adgno'r meddwl, ei dristwch a'i alar; gwelwn ei ffaeleddau, ond ni allwn weled ei amcanion; gwelwn ef yn bersonol, ond ni allwn weled beth sydd ganddo mewn golwg, neu ei feddylddrychau. Y mae y bywyd mewnol yma o obeithion, dysgwyliadau, dymuniadau, a chyfraniadau, o feddylian ac o ddychymygion, yn fwy gwir a sylweddol na'r bywyd allanol o gyflawnu.

Pe gallem ni weled ar un llaw, yr hyn ydym yn obeithio ac yn ddymuno am dano, yr hyn ydym yn llafurio ac yn amcanu ato, yr hyn ydym yn garu ac yn ei anrhydeddu; ac, ar y llaw arall, yr ydym yn gyflawnu mewn gwirionedd, wrth ba un o honynt y buasem yn glynu fwyaf; yn nghylch pa un o honynt y buasem yn dangos mwyaf o bryder? Y blaenaf yn ddiau. Dywed Russell Lowell yn wirioneddol:—

> "The thing we long for, that we *are*
> For one transcendent moment."

Nid cyn y byddom alluog i dreiddio trwy y gweledig at yr anweledig; i edrych tau y gweithredoedd at yr achosion a'r cymhelliadau o honynt; i dreiddio trwy yr ymadrodd allanol, a chael allan yr hyn ydys am ei osod allan mewn geiriau, ydym ni yn gymhwys i gyhoeddi barn ar gymmeriad un dyn. Yn y cyfamser, gallwn oll ddysgu bod yn fwy cariadus, trwy feddwl fod tu cefn i bob daioni sylweddol feddylddrych gwell a phurach yn ymorchestu am ddatganiad nad yw byth yn cael ei sylweddoli yn llwyr, a bod tu cefn i bob ymddygiad ydym ni yn ei annghymmeradwyo, yn gorwedd gymmeriad, yr hwn feallai sydd yn edifarhau oblegid ei gamsyniadau a'i bechodau gymmaint ag y dymunai y goreu o ddynion. U. H.

ANERCHIAD I BLANT YR YSGOL SUL.

"Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd."—Math. vi. 10.

A YDYCH chwi yn meddwl, pan yn adrodd Gweddi'r Arglwydd, pa beth mae yn olygu? Dymunem gael gwybod pa un a ydych yn adrodd y weddi hon, fel yr adroddwch eich *multiplication table*, neu pa un a ydych yn ystyried pan yn ei hadrodd, ac yn meddwl am yr Iesu, yr hwn a ddywedodd wrth ei ddysgyblion eu bod i weddio fel yma, ac am yr hyn feddyliai Ef allasent ddyfod, a pha beth a olygai wrth y geiriau y dysgodd hwynt i'w harfer. Carem wybod pa un a ydych wedi meddwl yn sobr a difrifol beth mae y geiriau yn olygu, "*Gweneler*

dy ewyllys megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd?" Dywed yr Iesu, "*megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.*" A ydych chwi yn gwybod pa fodd y mae ewyllys Duw yn cael ei gwneyd yn y nef? Wel, ni allwn weled y modd y dymunem, ond hawdd ddigon y gallwn ddychmygu pa fodd y mae angelion dysglaer Duw bob amser yn dda, ac yn caru eu gilydd, ac yn cyflawnu pob peth mae Duw yn ewyllysio iddynt gyflawnu. Nid ydym ni *wedi* gweled, etto meddyliwn oll ein bod yn gwybod yn weddol dda pa fodd y mae ewyllys Duw yn cael ei gwneyd yn y nefoedd; ac y mae'r Iesu yn gweddio am i ewyllys Duw gael ei gwneyd, yn yr un modd, ar y ddaear ag yn y nefoedd. Yn awr, yr ydym yn gweled beth sydd yn myned yn mlaen ar y ddaear, er na allwn ni ddim gweled beth sydd yn myned yn mlaen yn y nefoedd: A ydych chwi yn meddwl fod ewyllys Duw yn cael ei chyflawnu bob amser ar y ddaear fel y mae yn y nefoedd? Cymmerwch y mater dan eich ystyriaeth ddwys am ychydig amser * * * na, meddyliwn y cofiwch nad yw felly bob amser; oblegyd beth yw rhai o'r pethau mae Duw yn eu hewyllysio? Wel, y mae yn ewyllysio fod pawb yn ymdrechu bod yn gariadus a da, a pheidio ymryson, a bod pawb dynion a phlant yn caru eu gilydd o galon bur, oblegyd Efe a'n gwnaeth ni oll, ac y mae yn gofi lio pan nad ydym yn caru ein gilydd, ac y mae Ef yn ewyllysio i ni gyflawnu ein goruchwylion bob dydd, pa un ai pan yn dysgu ein gwersi, neu pan yn dylyn ein gwahanol alwadau bydol, megys y crydd, y gof, yr hwsmon, yr athraw neu yr athrawes, neu unrhyw beth arall. A ydych wedi meddwl erioed fod genych chwi, er nad ydych ond plant bychain, i gyflawnu ewyllys Duw yn yr un modd a dynion wedi tyfu i fyny—nad ydych chwi yn rhy fychain i gyflawnu ei ewyllys Ef fel eich henach?

Yn awr, a gawn ni ddywedyd wrthych am rai pethau sydd yn dygwydd i chwi, ac am y rhai y mae y Tad nefol yn gofalu llawer rhagor nag y gofelwch chwi. Wel, yr oedd merch fach, rhieni yr hon a'i danfonasant i'r ysgol gyda llawer ereill o ferched. Un boreu, daeth mam yr un fach i'w dihuno, a dywedai wrthi am godi, ond gan ei bod mor gysglyd a diog, ni wnaeth fel y gorchymynwyd iddi, a gorweddai, rhwng cwsg a dihun, ar y gwely. Yr oedd y plentyn wedi meddwl rai prydiau am Dduw, ac am frawd bach, yr hwn arferai fyned gyda hi i'r ysgol, ond yr hwn oedd yn awr wedi myned i'r nefoedd, pan orweddai ar ddihun ar ei gwely y nos; ond yn bresenol, yr oedd ei phen yn llawn o rywbeth arall; meddyliai am y pär newydd o esgidiau oedd ei thad wedi addaw eu gweithio iddi, a mawr oedd yn llawenhau wrth feddwl pa mor hapus y teimlai pan wedi eu cael. Maes o law, fel y gorweddai yn myfyrio felly, daeth ei mam i mewn ati drachefn, ac yr oedd yn lled chwerw wrthi am beidio codi, ac nid oedd yr un fach yn caru gweled ei mam yn chwerw, ac felly cododd a gosododd ei dillad am dani, ac wedi cyfranogi o frecwast gyda chymmaint o frys ag y medrai, a gwneyd i fyny yr amser a gollodd ar y gwely, cafodd allan ei bod yn amser ysgol, ac yr oedd ganddi ddwy filldir i gerdded iddi. Gafaelodd yn ei bonet, a ffwrdd â hi, oblegyd pe na buasai yno yn brydlawn, gwyddai beth fuasai y

canlyniadau annymunol; ond och! pan ddaeth at y drws, cafodd ei fod wedi ei gau, a chlywai ei chyd-ysgolheigion yn canu o fewn. Yr oedd wedi rhedeg mor gyflym, fel yr oedd y chwys yn treiglo i lawr dros ei gruddiau, ac yn awr yr oedd yn gorfod sefyll y tu allan am na allai fyned i mewn dros ychydig amser yn mhellach; felly eisteddodd i lawr ar y step, a thywalltodd ddagrau gofid. Maes o law, agorwyd y drws,—yr oedd ei llygaid yn goch; ac ni ddymunai gael ei gweled gan neb, felly cyrhaeddodd ei *slate* ac eisteddodd i lawr gyda'r merched hyd oni ddelai ei meistres i roddi eu gwersi iddynt. Gofynai ei chyfeillesau paham oedd yn ddiweddar, a phaham oedd wedi bod yn llefain, ond ysgydwai ei phen, ac ni roddai un ateb iddynt. Chwerthinodd y merched, a dywedasant, "Na ofelwch, gadewch hi yn llonydd tra y mae yn groes ac mewn natur ddrwg." Ni chafodd un tocyn, ac yr oedd mor *slow* gyda'i *sums*, a gwnaeth lawer o gamsyniadau am nad oedd yn gosod ei meddwl ar ei gwaith, ac oblegyd hyny cafodd ei gosod mewn cornel wrthi hi ei hunan, fel cosp; teimlai yn llidus, ac nid yn edifar, ac oblegyd hyny edrychai yn sarug ar bawb o'i hamgylch; felly aeth pob peth yn mlaen go chwith y diwrnod hwnw. A wnaeth y ferch ewyllys Duw, neu a ddarfu iddi feddwl am dano y diwrnod yma? Tranoeth aeth pob peth yn mlaen o'r goreu, cododd y ferch mewn amser priodol, ac aeth i'r ysgol mewn pryd, a chymerodd drafferth i ddysgu ei gwersi, ac yr oedd yn dda iawn; ac yn yr hwyr teimlai yn hapus oblegyd ei bod wedi ymdrechu bod yn dda, ac oblegyd ei bod yn gwybod ei fod yn beth *right* i fod yn dda, ac i fod hyny yn foddlon gan Dduw. Y diwrnod cyn hyny nid ydym ni yn credu ei bod yn meddwl ei bod yn gwneyd neb yn annedwydd ond yn unig hi ei hunan; ni feddyliai ddim am Dduw, yr hwn sydd yn cyflawnu gweithredoedd rhyfeddol, ac yn annghymmeradwyo pob peth sydd groes i'w ewyllys.

A ydych chwi yn meddwl y buasai hi yn ymddwyn felly pe buasai yn meddwl am hynyna? Yr ydym yn sicr nad oes yr un o honoch na charech fod yn wirfoddol dda, ac felly i ennill cymmeradwyaeth eich rhieni yn gystal a'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd—y Tad hwnw sydd yn gofalu am danoch bob amser, ac yn eich bendithio á phob peth ydych yn ei fwynhau. Gwyddom mai gwaith caled iawn yw bod yn dda bob amser ac yn mhob amgylchiad, ac yn neilltuol pan mae ereill yn siarad yn ddrwg am danom, a phan yn cael cin camgyhuddo o ddweyd neu wneyd hyn ac arall, ond er pob peth, yr ydym yn teimlo yn llawer mwy hapus yn y pen draw wrth ddyoddef yn amyneddgar, ac wrth dalu da am ddrwg, ac wrth wneuthur felly, yr ydych chwi a ninau yn gwneuthur ewyllys Duw. Dichon y gofynwch etto pa fodd mae i ni gyflawni ewyllys Duw? Wel, wrth garu eich cydysgolheigion, eich brodyr a'ch chwiorydd, y rhai mae Ef yn eu caru; ac os oes genych rai cyfeillion na ellwch eu caru fel y dymunech, ymddygwch tuag atynt yn fonedddigaidd, ac na fyddwch fyth yn groes a sarug am nad ydych yn hoff o honynt; dichon y gallant fod yn llawer gwell nag ydych chwi yn meddwl eu bod, a byddai yn beth beius iawn i chwi fod yn annghariadus, ac i ymddwyn tuag atynt fel na ddymunech iddynt

hwy ymddwyn atoch chwi. Ac efallai y gellwch gyflawni yr hyn sydd dda wrth gynnorthwyo eich tad, neu eich mam, neu rywrai ereill, a phan ydych yn gwneyd felly yr ydych yn boddloni y Tad nefol, ac oh, mor llon y byddwch yn teimlo wrth feddwl am hyny. Felly yr ydych yn gweled fod unrhyw weithred gariadus ydych yn gyflawni yn unrhyw fodd yn beth sydd gymmeradwy gan Dduw, a pha fwyaf o weithredoedd da ydych yn gyflawni, mwyaf i gyd yw y cyssur a'r llawenydd a deimlwch wrth feddwl eich bod yn cyflawnu ewyllys Duw. Y mae ef yn gweled beth ydych chwi a minau yn ei gyflawni bob amser. Y mae ef yn gweled y llefarwr, ac y mae yn gwybod pa un a ydych chwi yn gwrando yn astud neu yn ddiofal, a pha un a yw y llefarwr yn ymdrechu eich cynnorthwyo i ddyfod yn well a mwy rhagorol plant neu peidio. Y mae yn ein caru ni oll; ac os gofynwn am ei gymhorth, y mae yn sicr o'n helpu i'w foddloni, neu i wneuthur ei ewyllys ef.

Yn awr, pan ydych yn dywedyd, "Gwneler dy ewyllys, megys yn y nef, felly ar y ddaear hefyd," a fydd i chwi feddwl a chofio beth mae hyny yn ei olygu? Ni allwn ni fanylu ar yr oll sydd genych i'w gyflawni er rhodio a boddloni Duw, ond rhaid i ni oll gydymddwyn â'n gilydd pan y mae yr awelon croes yn chwythu drosom, a dwyn beichiau ein gilydd, a thrwy wneuthur felly brofi ein bod yn ddysgyblion Crist; ac wrth ymdrechu yn barhaus i wneyd felly, bydd i chwi a ninau gael allan, o radd i radd, beth sydd orphwysedig arnom i'w i'w gyflawni. Wrth ddiweddu, goddefwch i ni ddweyd mai ein gwir ddymuniad yw ar i chwi gofio ymdrechu gwneuthur ewyllys Duw bob dydd, a thrwy y dydd, ac os ydych ar rai amserau yn anghofio gwneyd felly, gweddiwch arno Ef i faddeu i chwi a'ch cynnorthwyo i ymddwyn yn well yn y dyfodol. S. S. A.

RHAI FFEITHIAU YN NGHYLCH JOHN WESLEY.

Efe a sylfaenodd gorff crefyddol, yr hwn a rifai yn mhen 80 mlynedd ar ol ei farwolaeth, ddeuddeg miliwn o aelodau; ac yr oedd y gwrtheffaith (*reaction*) ar gyrff crefyddol ereill o fwy pwys, dichon, na'i ddylanwad uniongyrchol. Yr oedd Wesley yn gymmysg hynod o nerth a gwendid. Gorweddai ei nerth braidd yn hollol o fewn cylch ymarferol. Yn ei berson, yr oedd hytrach o dan y maint cyffredin, ond yn odidog o gyfartal, heb gymmaint ag wns o gig diddefnydd, ond yn ewynog a chryf, gyda thalcen clir a llyfn, llygad dysglaer treiddiol, a gwyneb hawddgar, yr hwn a gadwodd ffresder ei liw hyd ddiwedd ei oes. Mewn gair, *human gamecock* oedd Wesley. Yr oedd ei egni gieuol yn aruthrol; ni fu erioed am chwarter awr yn isel ei yspryd; mae ei dalent at waith ac at ddylanwad ysprydol yn argraffedig ar ei ysgrifeniadau.

Nid ymddangosodd y fath arweinydd dynion yn y ganrif ddiweddaf, ac mewn cylch llai gallasai wneyd gwleidyddwr neu gadfridog o'r radd

flaenaf. Am fwy na hanner can mlynedd bu yn llywydd unbenaethol ei gyfundeb crefyddol, ac yn gymmaint ag na fynai lywodraethu o bellder, efe a arolygai yn bersonol, yn dra mynych, bob rhan o'r peirianwaith ag oedd wedi gychwyn.

Trafaelai ar gylch diorphwys ei ddyledswydd ryw 4,500 o filldiroedd bob blwyddyn; pregethai ddwy neu ragor o bregethau bob dydd; a chyfrifir iddo mewn 52 o flynyddau drafaelu 225,000 o filldiroedd, a thraddodi dros 40,000 o bregethau. Pregethai yn achlysurol i 20,000 o wrandawyr, a phan yn 86 mlwydd oed, ysgrifena iddo anerch cynnulleidfa o 25,000.

Codai bob bore am 4, gan roi iddo ei hun dim ond 6 awr i gysgu, ond fel gweithwyr caled ereill, dywedir y gallai ymollwng i gysgu pryd y mynai. Marchogai yn aml 70 milldir mewn diwrnod, ac yn gyffredin darllenai wrth farchogaeth, a chadwai ei anifail rhag tripio trwy adael yr awenau yn ddigon llaes. Ar ben ei 85 mlwydd priodola ei iechyd i'w ymarferiad dibaid, a newidiad awyr, ei allu i gysgu yn dda, ei fore-godi, a'i waith am 60 mlynedd yn pregethu yn rheolaidd am 5 ar y gloch yn y bore, a'r ffaith na ddyoddefodd ond ychydig boen, galar a phryder meddwl yn ystod ei oes.

LESLIE STEPHEN.

Y FERCH.

PEIDIWCH anghofio, fy merch, fod eich dylanwad fel menyw yn fawr er da ac er drwg. Ar fenyw y gorphwysa'r ddyledswydd o ddwyn i fyny ddynion dyfodol y genedl. Y fam sydd yn moldio'r cymmeriad; dan ei dylanwad mwynaidd mae'r meddwl ieuanc yn derbyn ei argraffiadau cyntaf. Mewn cymdeithas hi ydyw'r frenines, a phawb dynion yn ddeiliaid iddi. Gan hyny, rhaid iddi fod yn ofalus yn ei hymddygiad. Trwy air, neu hyd y nod edrychiad, gall anog neu rwystro yn effeithiol bob cais at ormod eofndra. Pe gwnai menywod hyn, ac yn neillduol merched, pe dangosent anfoddlonrwydd at yr hyn y gwyddant ei fod allan o le, ni chaffai ei wneuthur drachefn yn eu presenoldeb. Er i'r un ymosodir arno ffugio digofaint, yn ei galon fe deimla fwy o barch gwirioneddol i'r un sydd felly wedi ei geryddu na phe byddai yn pasio ei fai heibio heb ei geryddu. Ac etto, peidiwch a gwneuthur eich hunan yn rhad—o fewn cyrhaedd pawb. Ychydig o ddynion ieuainc a fynant ymwneyd dim â merch ieuanc o'r fath. I fod yn wraig nid oes ond ffwl neu rascal a gymmer y cyfryw fenyw. *Jewellery* rhad, nid oes neb a gyffyrdda ag ef os gall gael gwell. Merched rhad nid ydynt ond gwrthodedigion, a gwyr y dynion ieuainc hyny, ac edrychant i bob cyfeiriad arall am un i fod yn gydymaith a chyfaill bywyd, cyn rhoddi cipolwg ar y stwff sydd yn tincio wrth bob tro, er swyno llygad pwy bynag a edrycho. Chwi a dybiwch ei fod yn hollol y peth iawn i siarad yn uchel ac yn drwsgl, i fod yn drwstan ac yn hoydenaidd yn mhob lle cyhoeddus, i wneuthur eich hunan yn eofn ac yn beth cyffredin yn mhob man, fel y bydd dynion yn synu a fu erioed genych fam neu gartref neu rywbeth i'w wneuthur. Boed felly. Tebyg iawn y cymmerir chwi am yr hyn ydych o werth, ac un o'r blynyddau, os na wnewch waeth nâ llongddrylliad o honoch eich hunan, chwi ddechreuwch synu pa le mae'r swynion a feddyliasoch fod genych, a pha yspryd drwg allasai wneuthur y fath berffaith ffwl o honoch. Ewch rhagoch, ond cofiwch nad yw merched rhad yn denu neb ond ffyliaid neu rascaliaid. E. J.

Manion.

Bwrw Poteli i'r Mor.—Ceir gwersi oddiwrth y poteli yma ag ydynt yn fwy o wasanaeth na llawer o feddyliau a dychymygion dyn. Y mae Admiral Beechy wedi cyhoeddi *map* yn yr hwn y gosodir allan lwybr mwy na chant o'r poteli yma, y rhai a ddangosant fod holl ddyfroedd cyhyddeddol yr Atlantic yn tueddu tua'r gorllewin at y *Mexican Gulf*, i fyned allan oddiyno yn y *Gulf Stream*. Y mae poteli a fwrir dros y bwrdd yn nghanol y mor, neu ar unrhyw ran o'r *coast* Affricanaidd, yn troi i fyny, yn mhen amser naill ai yn yr India Gorllewinol, neu ar y traethau Prydeinig, neu yn nofio yn llwybr y *Gulf Stream* rhwng y ddau. Mae lle i gredu fod rhai o'r poteli yma wedi dyfod i glawr pan ar eu taith yr ail waith; wedi myned yn gyntaf wrth bob tebyg ar draws *coast* Hyspaen, ar eu taith tua'r Dê, ac wedi eu cario ar hyd *coast* Affrica i'r moroedd cyhydeddol, ac oddiyno drachefn yn groes i'r *Atlantic* i'r *Gulf of Mexico*.

Gwerth Moesol Dyn.—Un o'n gweinidogion sydd wedi adrodd a ganlyn:—Yr oeddwn mewn dadl yn ddiweddar a gweinidog iawnffyddol. Yr oedd hwnw wedi rhoddi enghraifft i egluro cyfiawnder athrawiaeth yr iawn. Yr oedd efe unwaith wedi rhoddi ei hunan yn fechniydd i sicrhau gonestrwydd dyn oedd wedi methu yn ei fasnach. Trodd y dyn allan i fod yn gymmeriad gwael a diwerth, a dywedodd fy ngwrthwynebydd ei fod ef mewn cyfiawnder yn ymrwymedig i dalu dyledion y dyledwr. Cyfododd dyn cloff tlawd i fyny ar ei draed yn union, a gofynodd am ganiatad i ofyn cwestiwn i'r gwr parchedig. Caniatawyd hyny, ac meddai efe: "Dywedasoch fod Iesu Grist wedi talu ein dyledion, ac nad oes eisieu i ni ond i gredu hyny, ac yna yr ydym yn gyfiawn ynnghyfiawnder Crist. Yn awr, syr, darfu i chwi dalu dyledion y dyn diffrwyth yma, er mwyn bod yn un â'ch gair. Yr wyf yn gofyn i chwi, a oedd dim o'r dyhiryn yma yr un cymmaint o *scamp* ac o *scoundrel* wedi i chwi dalu ei ddyledion ag o'r blaen, ac mor ddiffrwyth dyn wedi iddo gredu eich bod wedi gwneuthur hyn drosto ag o'r blaen yn ngolwg y gyfraith foesol." Ni wnaeth y gweinidog un ateb.

Rhagluniaeth.—Mae dynion yn siarad am ragluniaethau neillduol. Yr wyf fi yn credu yn y rhagluniaethau, ond dim yn y neillduolrwydd. Nid wyf yn credu fod Duw yn gadael i edefyn fy amgylchiadau i redeg am chwe diwrnod, ac ar hwyr y seithfed yn ei gymmeryd i fyny am foment. Nid yw y rhagluniaethau neillduol a elwir felly, yn eithriad i'r rheol—maent yn gyffredin i bawb dynion ar bob moment. Ond y mae yn ffaith fod gofal Duw, i olwg wan a dyrysedig dynoliaeth, yn fwy ar rai munydau nag ar funydau ereill. Ar y cyfryw enghreifftiau mae dynion yn sylwi ac yn eu galw yn rhagluniaethau. Mae'n dda eu bod yn gallu hyny, ond byddai yn ogoneddus yn well pe gallent gredu fod y cyfan oll yn un rhagluniaeth ogoneddus.—*George Mac Donald*.

Bechgyn.—Hen ffermwr sydd yn adrodd am ei fechgyn: "O unarbumtheg i ugain, gwyddent fwy nag y gwyddwn i; yn bump ar hugain gwyddent gymmaint; yn ddeg ar hugain yr oeddynt yn foddlawn gwrandaw beth oedd genyf i'w ddywedyd; yn bumtheg ar hugain ymofynent am fy nghynghor; ac yn ddeugain yr wyf yn dysgwyl y cydnabyddant fod yr hen ddyn yn gwybod rhywbeth."

Ymddibynwch arnoch eich hunan.—Mae gan bob un ei wers i ddysgu mewn bywyd. Peidiwch aros i'ch tad eich startio yn y byd. Startiwch eich hunan. Yr ydych yn debyg o wneuthur yn dda ddigon ond i chwi edrych pob rhwystr yn llawn yn yr wyneb a dywedyd, "Tyred allan o'm ffordd, neu mi a'th symmudaf allan o'r ffordd!" Ac wedi hyny os nad aiff allan o'r ffordd, perwch iddo fyned. Peidiwch rhoddi i fyny iddo a pheidiwch cymmeryd eich gorchfygu ganddo.

Gofyniad Athronydd.—Pan oedd Pyrrhus, brenin Epeirus, yn gwneuthur parotoadau at ryfel yn erbyn Rhufain, gofynodd Cineas, dyn doeth a da iddo, beth oedd ei ddysgwyliadau mewn perthynas i'r ymgyrch. "Darostwng Rhufain," meddai'r Brenin.—"Beth wnewch chwi wedi'n?"—"Gorchfygu Itali."—"A pha beth wedi'n?"—"Darostwng Carthage, a'r oll o Affrica a Groeg."—"A phan fyddoch wedi gorchfygu y rhai hyn oll a allwch orchfygu, beth wnewch chwi wedi'n?"—"Beth? eisteddaf i lawr, a threuliaf fy amser mewn heddwch a chyssur."—"Ah, f' Arglwydd frenin," ebe'r gwr doeth, "beth sydd yn eich rhwystro i eistedd i lawr a threulio eich amser mewn heddwch ac mewn cyssur yn awr?"

Tir y Byw.—Ebe un wrth hen wr, "Cefais lythyr oddiwrth gyfaill o'r Amerig, ac yr oedd yn gofyn a oeddych ar dir y byw."—"Na," meddai'r hen wr, "ond yr wyf ar y ffordd tuag yno. Nid yw y byd yma ond byd o gysgod yn unig, a'r byd tragwyddol yw'r unig un o sylweddolion byw."

Cydwybod, er iddi fod fel abwydyn bychan iawn yn ystod ein bywyd, etto a dyfa yn ddisymwth yn sarph mawr ar wely angeu.

Mae tymher siriol yn debyg i ronyn o fwsg; mae'n gwasgar ei arogl at bob peth y daw i gyffyrddiad ag ef; ac etto mae'n aros yr un peth.

Hanes.

Aberdar.—Mae Ap Evan yn ysgrifenu fod cyfarfod llwyddianus iawn wedi ei gynnal yn yr Hen-dy-Cwrdd, dydd Sul, Mawrth 24ain. Cyfarfod Chwarterol yr Ysgol Sul oedd—y 15fed a'r goreu oll. Cadeiriwyd gan y Parch. W. James, B.A., a chafwyd areithiau, ac adroddiadau, a chanu da dros ben.

Congl yr Holiedydd.

GOFYNIAD.

Ysgrifena L. J.:—"Yr wyf am i chwi neu rai o'ch gohebwyr galluog roddi ychydig eglurhad ar Rhufeiniaid xi. 5."

ATEBION.

Gofyniad 5, tud. 23.—Mae yn wir mai y "Cow and Scissors" y geilw llawer o'r bobl gyffredin y tafarndy a gyfeirir ato, ond y "Glove and Shears" yw yr enw priodol, a darlun o Faneg a Gwelleifau sydd ar y *sign*, er fod llygaid yr anghyfarwydd wedi gweled ynddo debygrwydd i Fuwch a Sisiwrn. Ond sut mae y faneg a'r gwelleifau wedi dyfod i gyssylltiad â'u gilydd? Offeryn i gneifio defaid yw y gwelleifau, ond nid ydynt yn gyffredin yn Nghymru fodd bynag yn gwisgo menyg wrth gneifio; ymddangosant bron cymmaint allan o le yno ag a wnaent ar draed cath fyddai yn myned i ddal llygod. S.

Gofyniad 1, tud. 23.—Tua dechreu y ganrif bresenol, pan oedd gwaedu yn fwy cyffredin nag yw yn awr, yr oedd yn arferiad i eilliedyddion *(barbers)*, heblaw tori gwallt ac eillio, i waedu dynion; ac i hyspysu hyn dodent bolyn i fyny, a lleinau o liain o amgylch iddo, o'r un fath a'r lliain a ddefnyddient i rwymo breichiau y rhai a waedid ganddynt. Mewn coffadwriaeth am hyn mae'r frawdoliaeth wedi cymmeryd polyn â'r lleinau coch a gwyn fel eu harwydd. W. J. M.

Marwgofion.

Mawrth 17, o'r dwymyn goch, yn y 7fed flwydd o'i hoedran, Elizabeth, anwyl ferch Thomas a Mary Jones, Henbant-Fawr, Llansiliogogo, Ceredigion. Claddwyd hi, y gyntaf un, yn meddfan newydd Capel-y-Fadfa, gyferbyn a phorth hardd y fynedfa. Gweinyddodd y Parch. Wm. Thomas yn y tŷ, a phregethodd yn y Bwlch i dyrfa barchus a lluosog. Nid oedd hyny, dichon, yn fawr o ysgafnhad i deimladau clwyfus y rhieni, ond edrychai y bedd newydd, *fel bedd* hardd a swynol, yn gymmaint a bod y priddellau yn raian sych a mânaidd. Fel y mae gwaethaf y modd, mae y dwymyn goch wedi gwneyd cryn hafog yn yr ardaloedd hyn y gauaf tyner a basiodd a'r gwanwyn llym sydd yn awr wedi canlyn; ac nid yw pan yr ydym ni yn ysgrifenu wedi gadael

teulu caredig yr Henbant, yn yr hwn ni a obeithiwn na wnaiff angeu ragor o fylchau ar hyn o bryd.

Duw a'i rhoes, ac a'i cymmerodd,
Gydag Ef y mae hi 'n awr;
Yma'n flaen-ffrwyth i laweroedd
Rhoisom hi yn llwch y llawr.
Chwythed drosti'r dirion awel,
Tyfed drosti flodau cun;
Boed, o boed ei chwsg yn dawel
Yn ei newydd fedd ei hun.

CYFAILL.

Mawrth 19eg, yn 23 oed, David, mab y diweddar David Evans, Glandwr, Llandyssul, a ¡Margaret Evans ei wraig, yr hon sydd yn awr yn fyw. Yr oedd yr ymadawedig wedi bod rai blynyddau yn Liverpool yn siopwr; ond gorfu iddo ddychwelyd oddiyno, a bu farw yn nhre gyda'i fam o'r *consumption*. Claddwyd ef yn Pantdefaid dydd Iau yr 21 o Fawrth. Pregethodd y Parch. T. T. ar yr achlysur.

Mawrth 24, yn 62 oed, yn Penrallt, ger Alltyplaca, yn nhy ei chwaer a'i frawd-yn-nghyfraith, lle yr oedd wedi bod yn aros am gryn amser, Thomas Thomas, diweddar o fferm Pantydefaid, ac ail fab y diweddar Mr. James Thomas, o'r lle a enwyd. Ei glefyd ar y diwedd oedd yr eis-glwyf ac enyniad yr ysgyfaint. Bu ei boen yn fawr, eithr ni pharhaodd ond am ychydig ddyddiau, hytrach llai nag wythnos. Er hyny yr oedd wedi colli ei iechyd arferol er ys amryw flynyddau, ac wedi ei amddifadu o'i fywiogrwydd, ei weithgarwch a'i sirioldeb blaenorol. Yn wir, oddiar y flwyddyn 1870, pan y gorfu iddo adael ei fferm, yr hon oedd wedi bod yn ddal am nwchlaw deng mlynedd ar ugain, am resymau politicaidd fel y credir, sef, oblegyd iddo bleidleisio yn etholiad cyffredinol 1868 yn ol llais ei gydwybod—er y pryd hwnw, nid oedd wedi bod yr un, gan i'r tro chwerw hwnw adael y fath argraff ddwfn ar natur mor llawn o deimlad a'i un ef, fel na allodd byth ymuniawnu, gyda'r eithriad o ychydig fisoedd wedi y cauad allan yn y Llwyn. Bu ar yr adeg hono yn cynnorthwyo yn egniol a ffyddlon tuag at adeiladu y tŷ coed, fel pe wedi ei gyffroi i ymdrech newydd gan y digllonedd a deimlai. Yr oedd yn hoff iawn o'i fferm ac o ffermwriaeth; ond yr oedd bellach yn rhy hen i ymgymmeryd a galwedigaeth newydd—nid oblegyd eisiau a feddyliwn, ond er diwydrwydd a chyssur. Nid oedd ein cyfaill yn un o'r rhai hyny a allant ddal ergydion creulawn o erlidigaeth a dial. Natur wâr, lednais, ddiniwed, foneddigaidd a thyner oedd yr eiddo ef; ac fel mai dail y rhosyn tecaf a wywant gyntaf, ac mai tànau yr offeryn cerdd mwyaf *sensitive* ydynt y parotaf i anmharu; felly hefyd yr oedd tynerwch, lledneisrwydd a charedigrwydd yr ymadawedig y fath fel yr effeithiai pob yspryd gwrthwynebol yn fwy na chyffredin arno. Ni dderbyniodd, hyd y gwyddom ni, ond pob tiriondeb a chydymdeimlad ar law pawb ond ei elynion politicaidd, ond yr oedd hyny yn llawn ddigon iddo ef. Priodol iawn y gallesid ei anerch ef:

"Ystormydd byd gurasant arnat ormod,
A throaist i dy fedd i 'mofyn cysgod."

Blynyddoedd i'w hir gofio yn Ngheredigion oedd 1869, 1870, 1871 ac 1876. Yn y cyntaf, collodd llawer eu ffermydd tuag ochr y môr, ac yn mharthau y sir. Yn 1870, gorfu ar bum ffermwr cyfrifol yn mhlwyf Llandyssul, o ba rai yr oedd ein cyfaill yn un—adael y ffermydd a ddalient ar etifeddiaeth Pantydefaid neu Lanfair. Yn 1871, bu raid i wyth o ddeiliadon, gyda'r mwyaf cyfrifol—a dweyd y lleiaf—roi i fyny y tir neu y ffermydd a ddalient ar ystâd Alltyrodyn, ac un etto ar ystâd Llanfair. Dichon fod rhagor ar bob un o'r etifeddiaethau, ond y mae yr enghreifftiau uchod ar flaenau ein bysedd. Yn ddiweddaf, yn niwedd Hydref 1876, cauwyd capel a mynwent Llwynrhydowen, fel coron a diweddglo ar y cyfan. Yn wleidyddol, cofier, mai Rhyddfrydwyr, a'r rhan fwyaf o honynt yn Rhyddfrydwyr blaenllaw ac adnabyddus, oedd y pedwar-ar-ddeg uchod, yn gystal a gweinidog y Llwyn.

Claddwyd ein hoffus gyfaill mewn bedd dwfn a graianog yn mynwent newydd y Llwyn; y trydydd a roddwyd yma i huno. Yn ac wrth y tŷ buasai y Parchn. John Davies a David Evans, B.A. yn gweini; a gweinyddwyd yn y gladdfa, a thraddodwyd y bregeth angladdol yn y capel coed, y Sul nesaf ond un i'r gladdedigaeth gan weinidog y lle. Yr oedd y cynnulliadau ar y ddau achlysur yn lluosog iawn. Wrth sefyll ar lan ei fedd, i gyfarfod â'n gilydd byth mwy ar y ddaear, nid oes genym ond dweyd: Heddwch i ti, anwyl gyfaill, a bydded modd oddiwrth Dduw i'r brodyr a'r chwiorydd a'r perthynasau oll yn eu galar i ymdawelu ac ymgyssuro.

UN YN CANLYN.

Ebrill 1, yn 62 oed, Mary Rees, anwyl briod Evan Rees, Gof, Plasydderwen, Llandyssul. Buasai yn wanaidd ei hiechyd am lawer o flynyddau, ond yr oedd mor nodedig hyd y nod mewn llesgedd am ei diwydrwydd, ei gofal, ei medr, a'i hyspryd, fel y mae ei symmudiad ymaith yn fwlch yn y

teulu na lenwir mo hono. Boed nawdd y Tad goreu i'w phriod unig a'i phlant galarus, a chaffont deimlo yn agos ati o ran eu meddwl er nad yw hi mwyach yn myned i mewn ac allan ar y ddaear fel cynt. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parch. W. Thomas, Llwyn, a phregethwyd yn eglwys Llanfihangel-ar-arth, wrth ba un y rhoed hi i orphwys, gan y Parch. W. G. Jenkins, ficer Llandyssul, gan mai aelod—ond aelod diragfarn iawn—o Eglwys Loegr oedd ein chwaer ymadawedig. Meddylier am ac efelycher ei haml rinweddau.

"O pwy o honom oll y sydd
Yn siwr o'r dydd y foru?"
CYFAILL.

Ebrill 1, yn ddwy flwydd oed, o'r *Scarlatina*, Gwenllian, merch fechan Thomas a Mary Davies, Vale of Teifi, Llanybyther. Claddwyd hi y dydd Mercher canlynol yn Capel-y-groes. Darllenodd a gweddiodd offeiriad y plwyf yn y tŷ, a phregethodd y Parch. T.T. yn Capelygroes.

Y PARCH. W. B. HUGHES.—Mae'r cedyrn o hyd yn cwympo; mae colliadau yn cymmeryd lle yn barhaus yn myddinoedd pregethwyr Undodaidd Cymru a Lloegr, ag ydynt bron yn anadferadwy. Mae llawer cadben dewr a ffyddlon yn gorfod diarfogi a rhoi ei waith i lawr pan ond dechreu cael cip-drem ar faesydd prydferth anrhydedd a gogoniant—yn gorfod encilio o'r frwydr pan mae llwyddiant i'w gweled draw yn y pellder yn chwifio ei llumanau heirddion i'w groesawu. Gwneuthur ychydig sylwadau ar un o'r gwroniaid yma yw y gorchwyl annymunol ag sydd genym ar yr adeg bresenol.

Ar y dydd cyntaf o fis Ebrill, rhwng pedwar a phump o'r gloch ar brydnawn tesog, hafaidd, pan oedd pob peth braidd o'n hamgylch megys yn ymuniawnu ar ol cwsg hir y gauaf. Bu farw y Parch. William Beynon Hughes, o Gefncoed-y-cymmer. Bu farw yn mhresenoldeb priod hoffus, plant bychain, digymhorth, a lluaws o berthynasau agos a thyner—y rhai, er cymmaint eu hymlyniad wrtho, ni allent weini iddo un cynnorthwy, nac ymyru dim â'r Ewyllys Ddoeth sydd yn goruwch lywodraethu'r cyfan. Yr oedd Mr. Hughes yn hanu o deulu parchus a chyfrifol, llawer o honynt yn byw yn bresenol ar y Cefn. Mab ydoedd i Thomas a Margaret Hughes, gynt o'r *Merthyr and Brecon Railway Tavern*, lle y buont yn trigianu y rhan fwyaf o weddill eu hoes. Yr oeddent yn aelodau defnyddiol yn yr Hen-dy-Cwrdd, lle bu Thomas Hughes am flynyddau meithion yn tori beddau, ac yn ddyn diwyd a gwasanaethgar iawn ar lawer ystyr. Ganwyd gwrthddrych ein nodiadau ar y 17eg o Chwefror, 1840; treuliodd y rhan foreuol o'i fywyd dan addysgiaeth fedrus y diweddar Barch. Owen Evans, lle yr enwogodd ei hun fel ysgolhaig dysglaer, y goreu, yn ol pob hanes, ag oedd yno ar y pryd hyny, er fod yno fechgyn o alluoedd gwych o bob man o'r wlad. Wedi derbyn y cyfleusderau goreu ar y Cefn, a phan nad oedd etto ond hogyn ieuanc dibrofiad, symmudodd i Gaerfyrddin i'r Coleg Henadurol, i astudio dan ofal y diweddar Dr. Lloyd, gyda'r hwn y llettyai. Tra yn fyfyriwr yn Nghaerfyrddin, adroddir llawer hanesyn dyddorol am dano, yn dangos ei barodrwydd i helpu ei gyd-lanciau a fyddent mewn angen am ei gymhorth. Clywsom a ganlyn gan un o'i gyd-fyfyrwyr. Un diwrnod yn misoedd tesog yr haf, pan mae pobl ieuainc, a hen o ran hyny, mor hoff o fyned i ymdrochi, aeth dau neu dri o fyfyrwyr y Coleg i lawr hyd lan afon brydferth Towy, gyda'r dyben o ymfwynhau am ychydig yn y dwfr ac yn eu plith yr oedd William Hughes. O herwydd rhyw achos neu gilydd, ni ddarfu iddo ef y diwrnod hwnw ymuno â'i gyfoedion yn eu chwareu diniwed, ond safodd ar y lan i wylio arnynt. Yn mhen ychydig amser, gwelai un o'r bechgyn, yr hwn oedd yn berchen ar gorph lled dda, yn gwneuthur ystranciau lled ddyeithr ac anarferol yn y dwfr, a meddyliodd fod yno rywbeth maes o le, ac er nad oedd Hughes ei hunan yn ddim nofiwr, ac er ei fod yn llencyn o gyfansoddiad eiddilaidd, etto neidiodd i'r dwfr heb ddiosg dim o'i ddillad, a chafodd afael am ben y truan anffortunus oedd yn ymladd am ei fywyd; ac er na feddai Hughes ar ddigon o gryfder i'w ddwyn i'r lan, etto bu yn foddion i ddal ei ben rhag y dwfr, hyd nes i ryw "Samaritan trugarog" i ddod heibio a'u dwyn hwynt ill dau yn ddyogel i dir sych.

Wedi myned trwy ei yrfa Athrofaol, yr hon oedd yn dra llwyddiannus yn mhob ystyr, derbyniodd wahoddiad gwresog i fyned yn weinidog i Penrhiw a Phant-teg, gerllaw Castellnewydd Emlyn, ac yno bu'n gymmeradwy iawn fel pregethwr ac ysgolfeistr hyd nes yr ymadawodd trwy fyned, mewn atebiad i wahoddiad taer, i weinidogaethu i Ogledd Cymru, gerllaw Conwy. Yma, oherwydd y gwaith caled a'r pryder parhaus yr oedd yn gorfod myned trwyddynt, ymollyngodd ei iechyd i raddau mawr, fel y gorfu arno roddi fyny; ond

'nol ychydig bach o orphwys, ail gydiodd yn ei waith gyda zêl ac egni adnewyddol, ond er cymmaint yr awydd, yr oedd y nerth yn pallu, ac ar ol tri mis yn rhagor o lafur yn nghanol gwendid mawr, bu raid iddo ildio yn gyfangwbl a dychwelyd i hen fan ei enedigaeth. Cymmerodd hyn le tua chwe mlynedd 'nol, ac y mae ar y Cefn oddiar yr amser hwnw hyd yn awr. Dyoddefodd boenau mawr yn ei aelodau, yr hyn a barai iddo fod yn hollol analluog i wneuthur dim drosto ei hunan. Yn ystod yr amser hirfaith 'yma o wendid parhaus, meddianai ei gynneddfau meddyliol, fel yr oedd ei gymdeithas yn adeiladol a'r ymgom ag ef yn hyfryd ac addysgiadol dros ben. Yr oedd ei olygon wedi pylu, fel nas gallai ddarllen, ond ystoriai y cyfan a ddarllenid iddo. Llawer gwaith y bu ysgrifenydd y nodiadau gwasgarog yma, yn eistedd gydag ef ger y tân yn darllen iddo, neu'n ymddyddan ar wahanol bynciau'r dydd. Ond mae wedi myned ac wedi cael ymryddhad felus o'i holl arteithiau, y rhai a ddygodd yn amyneddgar—byth yn achwyn nac yn cwynfan, ond bob amser yn credu fod y cyfan yn tarddu oddiar gariad perffaith. Gadawodd weddw a phump o blant bychain prydferth, i alaru ar ei ol; ac er fod colli priod hawddgar a thad tyner a charedig yn ergyd trwm, ac yn aradu teimladau tyneraf y fynwes, etto dylent deimlo yn ddiolchgar ei fod wedi cael myned o'i holl boenau, a dylent daflu eu holl ymddiried ar Farnwr y weddw a Thad yr amddifaid, gan gredu fod pob peth yn iawn ac er daioni yn y diwedd. Ar ddydd yr angladd, daeth amryw o weinidogion yn nghyd i dalu iddo y gymmwynas olaf. Cyn cychwyn o'r ty, darllenodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, emyn, yr hon a ganwyd gan dorf luosog o bobl. Yn y ty-cwrdd, darllenodd a gweddiodd Mr. Lloyd, a phregethodd y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar, yn bwrpasol iawn, gan dynu braslun byr o hanes bywyd yr ymadawedig. Ar lan y bedd gweddiodd y Parch. J. J. George, Aberdar. Yr oedd hefyd yn bresenol y gweinidogion canlynol:—Y Parchn. N. R. Williams, Merthyr; T. Salathiel (B.), a Morris (B.), Cefn, a J. H. Davies, Cefn. Fel hyn gyda bod bywyd hardd a defnyddiol yn dechreu ymagor, mae mantelli tywyllion y nos olaf yn ymgysgodi drosto, ac yn diffodd gobeithion a rhagolygon un o'r cyfeillion mwyaf didwyll, ac un a deimlir ei golled yn hir yn mhlith gweinidogion Undodaidd Cymru. J. H. D.

Ebrill 6, yn dra disymmwth, Evan Jones, Gof, Cwmpib, ger Llanwnen, yn 71 oed. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn Capel-y-groes. Darllenodd a gweddiodd y Parch. W. Rees, Rhydygwin, a phregethodd y Parch. T. T. Hen wr parchus iawn yn y gymmydogaeth oedd Evan y Gof, ac y mae hiraeth cyffredinol ar ei ol. Oedd yn un o aelodau ffyddlonaf Capel-y-groes, nemawr byth yn eisiau yn y cornel lle yr arferai eistedd yn yr addoliad. Nid oedd byth yn rhy wlawog, yn rhy wyntog, yn rhy oer, neu yn rhy dwymn iddo fyned i'r cwrdd. "Da, was da a ffyddlon." Ymgyssured ei weddw ar ei ol.

GENEDIGAETH.

Ebrill 9, 1878, priod Mr. G. Watkins, *Foreman Pattern Maker*, Aberaman, Aberdar, ar fab, yr hwn a elwir Samuel.

Dymunaf einioes hir, a iach,
A buchedd ddoeth, i Samuel bach;
Boed bleidiwr rhyddid trwy bob gwawd,
Gan ofni Duw a pharchu 'i frawd.

CYNONWYSON.

Barddoniaeth.

IN MEMORIAM.

W. B. H.

Ebrill 1af, 1878.

Yn iach it', gyfaill hoff, yn iach!
Yw'th yrfa di'n y byd ar ben?
A groesaist y tu hwnt i'r llen?
Down ar dy ol 'mhen enyd bach.

Ti welaist lawer cwmmwl du
'N tywyllu'th lwybrau'n hyn o fyd,
A blin ofidiau lawer pryd
Yn lladd gobeithion gwanwyn cu.

Pan gynt cychwynaist ar dy daith,
Yn moreu'th oes, yn llencyn bach;
A bwriad pur, â chalon iach,
Yr ymgyflwynaist at y gwaith—

Y sanctaidd waith, dyrchafu dyn,
A'i arwain trwy beryglon trist
Y bywyd hwn, at Iesu Grist,
I'w ddysgu i feistroli ei hun.

Yn dy ddychymyg bywiog gynt,
Gobeithit wneyd gwrhydri mawr—
Dwyn caerau pechod oll i'r llawr,
A'u gwasgar megys us i'r gwynt.

Yn iach, yn hyf, â nerthol ordd
Ieuenctid gwrol, at y gwaith,
Y cefaist gychwyn ar dy daith,
A'th nerth wanychwyd ar y ffordd.

A chaerau pechod megys gynt,
Yn nerthol ydynt drwy ein tir;
Y c'nauaf sydd yn fawr yn wir,
A'r gweithwyr yn anaml ynt.

Yn moreu'th oes fe'th ddygwyd di,
Trwy ddirgel drefn Anfeidrol Ior,
Sy'n llywodraethu tir a môr,
I lawr hyd fin Iorddonen ddu.

Am amser hir, ar fin y don,
Yn swn y dyfroedd buost ti;
A'th feddwl weithiau hwnt i'r lli,'
Ac aml waith yr ochr hon.

Ce'st wel'd oddiyno'th fam a'th dad
Yn croesi'r dyfroedd drosodd draw;
A theimlaist, Yn y man fe ddaw
Y wys a'm dwg i'r ddystaw wlad.

Fe ddaeth y wys, a'th blantos mwyn,
A'th briod hoff, a'th geraint oll,
Am fyn'd o honot ti ar goll,
Ynt yn galaru'n oer eu cwyn.

Ffydd, gobaith, cariad, fyddont mwy,
Yn nydd trallodus galar du,
O herwydd colli cyfaill cu,
Fel engyl i'w dyddanu hwy.

Yn iach it', gyfaill hoff, yn iach!
Mae'th yrfa di'n y byd ar ben,
A chroesaist y tu hwnt i'r llen—
Down ar dy ol 'mhen enyd bach.

Y CEILIOG.

(Yn ol dull Heinrich Heine.)

Ceiliogod y fro ni ddeffroant
I gyhoeddi y wawr yr un funyd;
Ond doeth dduwinyddion ymroant
Gael dynion i gredu'r un ffunyd.

Yn nyfnder nos, pan gwyd meddyliau
Am bethau wedi bod;
Yn nyfnder nos, pan ddaw syniadau
Am bethau etto'i dd'od;
Pan dew y gwyll yn yr ystafell unig,
A'r hun mor fyr!
Iach lais y ceiliog ar y caddug,
Mor felus dyr!

Pwy roes y reddf yn yr aderyn,
I eilio cân?
I ddeffro cyn bod neb yn gofyn,
Mor hardd ei rân?
Undonawl, etto fyth mae croesaw
I Salm y wawr;
A balch yw yntau ar yr alaw,
Sy' hen yn awr.

Pa drefn sydd yn y côr plygeiniol?
I arwain, pwy?
A yw'r eiddigedd yno'n rheol,
Sy' bla pob plwy'?
Yn hytrach, yw pob gwych aderyn,
Ryw enyd lwys,
Ddim yn ymollwng i'w ber englyn,
Heb boen na phwys?

Mae adar ereill fyth yn canu
Yn ngoleu'r dydd;
Ond ti, pan mae y byd yn fagddu,
Yn canu sydd.
Y tlawd fyfyriwr yn ei 'stafell
Sy' hoff o'th si:
Ond un Apostol, heb ei gymhell,
Ni'th grybwyll di.

Pa frenin ydwyt yn y bore,
Ar uchel glwyd!
A llawer teyrn fel ti fu'n chware
'N y bore llwyd;
Ond ymaith ciliodd y mawreddau,
Ar adeg nawn,
A dystaw, gyfaill, ydwyt tithau
'N y goleu llawn.

Ond O! mae nghalon yn dy garu:
Wyt rydd o dwyll;
A phan y bore wyt yn canu,
Dyddeni 'mhwyll.
Ac yn y nos sy hirfaith,
Dy sain sy ber;
Pan oeddwn ar fy mordaith
Fy ngheiliog oedd y ser.

MARLES.

Allan o'r "*South Wales Daily News.*"

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

R. E., Cardiff; D. L., Llanybydder.—Y gweddill ar amlen y rhifyn nesaf.

Y LLYFR EMYNAU.

Mae yn y Wasg, a chyhoeddir ef yn fuan. Anfoner archebion am dano at y Golygydd.

Yr Helbul yn Llwynrhydowen.

Dymunir ar bwy bynag sydd wedi bod mor garedig ag addaw cyfranu at y Capel Newydd yn Llwynrhydowen, ac heb dalu i mewn eu haddewidion, i wneyd hyny yn ddioed i'r Trysorydd: *John Jones, Esq, Solicitor, Llandyssul, Cardiganshire.* Derbynir hefyd bob cyfraniadau newyddion yn ddiolchgar. Gobeithir y bydd y gwaith wedi ei roi allan cyn bod y rhifyn hwn yn nwylaw eich derbynwyr.

Llandyssul, Mawrth 16, 1878. WILLIAM THOMAS.

GIRLS' SCHOOL,

RICHMOND VILLA, LLANDYSSUL,

CONDUCTED BY MRS. WILLIAM THOMAS AND HER SISTER, MISS WILLIAMS.

The Rev. W. THOMAS, M.A., having been obliged through ill-health to give up his Boarders, though his School for Day Pupils will be duly re-opened after the Christmas Vacation, MRS. THOMAS and MISS WILLIAMS will be prepared, at the re-opening of their School, to receive a few young Ladies to board and educate.

Terms moderate. Pupils prepared for the Oxford and Cambridge Examinations.

Both Schools will re-open on Monday, January 14th, 1878.

Yn awr yn barod, Pris 3s. a 6ch., wedi ei rwymo yn hardd,

AIL ARGRAFFIAD O

TELYN DEWI,

SEF GWAITH PRYDYDDAWL Y PARCH. DAVID DAVIS,

GYNT O GASTELL-HYWEL, CEREDIGION.

Fel mae yn hyspys i lawer fod y Gwaith uchod allan o Brint er's blynyddau, a diamheu y bydd ymddangosiad yr Ail Argraffiad hwn yn hyfrydwch ac yn dderbyn. iol gan Feirdd a Llenorion Cymru. Y mae yn cynnwys llawer o ddarnau o'i waith nad oeddynt yn yr Argraffiad cyntaf—yn nghyd â Hanes ei Fywyd, a Darlun hardd o'r Awdwr.

Erfynir ar bawb a ewyllysiant gael copi o'r Gwaith uchod anfon eu henwau yn ddioed i'r cyhoeddwr, J. DAVIS, Argraffydd, Llanbedr.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—Rev. W. James, B.A., Park Lane, Aberdare.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfarwydd,*—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Myrtle Cottage,
Aberdare.